# Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

24 Tachwedd 2025

**Tystiolaeth mewn perthynas â'r dyraniadau cyllidebol a wnaed drwy Brif Grŵp Gwariant (MEG) Cyfiawnder Cymdeithasol; gan gynnwys tystiolaeth ynglŷn â sut mae'r ystyriaeth o gydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn ysgogi'r broses o bennu blaenoriaethau a dyrannu'r gyllideb ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.**

## Cynnwys

**1. Trosolwg o'r Gyllideb ........ 3**

**2. Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ........ 11**

**3. Mynd i'r afael â thlodi, costau byw a lleihau anghydraddoldeb ........ 13**

**4. Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chydlyniant Cymunedol ... 17**

**5. Cenedl Noddfa ........ 22**

**6. Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ........ 23**

**7. Cyfiawnder Troseddol ........ 27**

**8. Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ........ 31**

**9. Gwasanaethau Cynghori ........ 35**

**10. Y Trydydd Sector ........ 37**

**11. Tlodi Tanwydd ........ 39**

# 1. Trosolwg o'r Gyllideb

## Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 a gymhwyswyd at MEG Cyfiawnder Cymdeithasol

1. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o gynlluniau MEG Cyfiawnder Cymdeithasol fel y'u cyhoeddwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 ar 14 Hydref a 3 Tachwedd. Yn gyffredinol, mae hyn yn cadarnhau cynnydd o **£8.2m mewn adnoddau cyllidol (refeniw)** a chynnydd o **£0.4m ar Gyfalaf Cyffredinol**. Ar gyfer **Cyfalaf Trafodiadau Ariannol** mae'r Prif Grŵp Gwariant wedi cael dyraniad ychwanegol o **£1.5m**, ond mae hyn wedi'i netio yn erbyn ad-daliadau arfaethedig o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol, sy'n gadael cyllideb o **£0.5m** ar wyneb Cyllideb Ddrafft 2026-27. Mae **cyllidebau Adnoddau Anghyllidol (nad ydynt yn arian parod)** wedi **lleihau £0.05m** o ganlyniad i ofynion sy'n newid yn ystod y flwyddyn.

| CYFIAWNDER CYMDEITHASOL | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyllideb Derfynol 2025-26 | Addasiadau i Linell Sylfaen 2025-26 | Llinell Sylfaen Ddiwygiedig 2025-26 | Newidiadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 | Cyllideb Ddrafft 2026-27 | Newidiadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 | Cyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 |
| | (A) | (B) | (C = A + B) | (D) | (E = C + D) | (F) | (G = A + F) |
| | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd | £000oedd |
| Adnoddau Cyllidol | 139,296 | -3,977 | 135,319 | 8,235 | 143,554 | 2,909 | 142,205 |
| Adnoddau Anghyllidol | 507 | 0 | 507 | -46 | 461 | -20 | 487 |
| **Cyfanswm Adnoddau** | **139,803** | **-3,977** | **135,826** | **8,189** | **144,015** | **2,889** | **142,692** |
| Cyfalaf Cyffredinol | 17,890 | 0 | 17,890 | 358 | 18,248 | 0 | 17,890 |
| Cyfalaf Trafodiadau Ariannol | 1,461 | -1,461 | 0 | 457 | 457 | -10 | 1,451 |
| **Cyfanswm Cyfalaf** | **19,351** | **-1,461** | **17,890** | **815** | **18,705** | **-10** | **19,341** |
| **Cyfan-swm** | **159,154** | **-5,438** | **153,716** | **9,004** | **162,720** | **2,879** | **162,033** |
| **Cyfamswm AME** | **226** | **0** | **226** | **0** | **226** | **0** | **226** |

2. Fel gyda'r holl Brif Grwpiau Gwariant eraill, mae cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant wedi cael ei gymhwyso at MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, a chynnydd o 2.2% ar gyfer yr elfennau o'r gyllideb sy'n ymwneud â chyflogau'r sector cyhoeddus. Mae hyn yn darparu **£2.735m o refeniw (adnoddau cyllidol) ychwanegol** a **£0.4m o gyfalaf cyffredinol** drwy Gyllideb Ddrafft 2026-27. Mae'r cynnydd mewn refeniw wedi cael ei gymhwyso'n gyfartal at bob Llinell Wariant yn y Gyllideb er mwyn cydnabod bod dull system gyfan sy'n mynd i'r afael â sawl maes o anfantais mewn gwahanol feysydd polisi yn hollbwysig er mwyn sicrhau cyfleoedd i bob plentyn, teulu ac aelwyd a gwella canlyniadau i bobl dros y tymor hwy.

3. Yn ychwanegol at y cynnydd bras oherwydd chwyddiant, rwyf hefyd wedi chwilio am gyfleoedd i ddyrannu fy nghyllidebau tuag at feysydd lle mae'r effaith a'r angen mwyaf. O ganlyniad i hyn, caiff **£2.4m o refeniw** ychwanegol ei ailbwrpasu yn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yng nghynigion Cyllideb Ddrafft 2026-27.

4. Mae cyfanswm o **£5.2m** o refeniw o gyfran amcangyfrifedig Llywodraeth Cymru o'r Ardoll Cyngor ar Ddyled hefyd wedi cael ei ddyrannu i MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ar sail anghylchol a gaiff ei glustnodi ar gyfer gwasanaethau **cynghori ar ddyled** drwy gyllideb Gwasanaethau Cynghori.

5. Yn olaf, mae swm ychwanegol o **£0.3m** wedi cael ei ddyrannu'n benodol o'r cronfeydd wrth gefn gyda dyraniad o **£0.1m** i gyllideb **Cyflawni Cyfiawnder Troseddol** i gyllido cynllun peilot ar y cyd â **Greater Change** i ystyried dull gwahanol o gefnogi'r rhai sy'n ddigartref neu sy'n wynebu risg o ddigartrefedd, a dyraniad o **£0.2m** i gyllideb **Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol** i gyllido costau blwyddyn gyntaf rhoi Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar waith.

6. Ar gyfer Cyfalaf Cyffredinol, mae cynnydd o **£0.4m** oherwydd chwyddiant wedi cael ei ddyrannu'n gyfan gwbl i gyllideb **Cynhwysiant Ariannol** i greu rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer undebau credyd. Yn yr un modd, caiff y cynnydd o **£1.5m** yng Nghyfalaf Trafodiadau Ariannol ei ddefnyddio'n llawn i roi cymorth ychwanegol i Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

7. Mae pob dyraniad wedi cael ei wneud yn unol â llawer o'n hymrwymiadau o dan y Rhaglen Lywodraethu sydd â'r nod o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a'u lleihau a chefnogi hawliau dynol a hawliau plant. Mewn cymhariaeth, buddsoddiadau bach yw'r rhain, ond bydd eu heffaith yn bellgyrhaeddol ac yn sylweddol i'r unigolion y mae angen cymorth arnynt fwyaf.

8. Ceir dadansoddiad manylach o ddyraniadau Cyllideb Ddrafft 2026-27 ar lefel Llinell Wariant yn y Gyllideb yn **Atodiad A**.

9. Mae'r tabl uchod hefyd yn crynhoi'r addasiadau a wnaed i linellau sylfaen Cyllideb Derfynol 2025-26. Ar gyfer Adnoddau Cyllidol (refeniw), mae'r addasiadau yn ymwneud â dyraniadau cylchol a wnaed yn ystod 2025-26 mewn perthynas â dyfarniad cyflog y sector cyhoeddus a newidiadau i yswiriant gwladol. Ceir hefyd wrthdroi'r ardoll dyled untro o £4.32m a glustnodwyd ar gyfer 2025-26, a ddychwelwyd i'r cronfeydd wrth gefn. Ar gyfer Cyfalaf Trafodiadau Ariannol, mae'r addasiadau yn cynrychioli gwrthdroi dyraniadau anghylchol a wnaed yn 2025-26 ac ad-daliadau arfaethedig.

10. Ceir dadansoddiad manylach ar lefel Llinellau Gwariant yn y Gyllideb o newidiadau a wnaed rhwng Cyllideb Derfynol 2025-26 a Chyllideb Ddrafft 2026-27 a'r newidiadau a wnaed rhwng Cyllideb Derfynol 2025-26 a Chyllideb Atodol Gyntaf 2025-26 a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025 yn **Atodiad B**.

## Sut mae cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn ysgogi'r broses o bennu blaenoriaethau

11. Mae Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn parhau i fod yn sail i flaenoriaethau'r llywodraeth hon. Mae cyllid drwy MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, ochr yn ochr â chyllidebau eraill Llywodraeth Cymru, yn cyfrannu at fynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb, hyrwyddo hawliau dynol a gwella llesiant pawb yng Nghymru.

12. Mae ystyriaethau o ran cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn rhan annatod o'r blaenoriaethau y mae'r Llywodraeth wedi eu pennu ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon. Cafodd y blaenoriaethau eu llunio drwy'r ymarfer gwrando a gynhaliwyd yn ystod haf 2024 a'u cyhoeddi gan y Prif Weinidog ym mis Medi 2024. Y pedwar maes blaenoriaeth allweddol yw:

- **Iechyd da** – lleihau amseroedd aros y GIG, gan gynnwys ar gyfer iechyd meddwl; gwella mynediad at ofal cymdeithasol a gwasanaethau iechyd menywod.
- **Swyddi a thwf gwyrdd** – creu swyddi gwyrdd sy'n mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac yn adfer natur, a hefyd sicrhau bod teuluoedd ar eu hennill; cyflymu penderfyniadau cynllunio i dyfu economi Cymru.
- **Cyfle i bob teulu** – codi safonau mewn ysgolion a cholegau a darparu mwy o dai rhentu cymdeithasol, gan sicrhau bod pob teulu yn cael cyfle i lwyddo.
- **Cysylltu cymunedau** – trawsnewid ein rheilffyrdd a sicrhau rhwydwaith bysiau gwell; trwsio ein ffyrdd a grymuso cymunedau lleol i wneud dewisiadau ynglŷn ag 20mya.

13. Meysydd polisi sy'n bodoli eisoes yw'r rhain. Mae'r broses gyflawni yn mynd rhagddi yn unol â'r gofynion statudol ac asesu effaith perthnasol.

14. Cyhoeddwyd Asesiad Effaith Integredig Strategol amlinellol i gefnogi'r cynlluniau a nodwyd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 ar 3 Tachwedd. Caiff Asesiad Effaith Integredig Strategol llawn ei gwblhau ym mis Ionawr a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Derfynol.

15. Cynhaliwyd adolygiad o broses Asesu Effaith Integredig Strategol Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, a ddaeth i ben yn ystod haf 2025. Nododd yr adolygiad sawl agwedd gadarnhaol ar y dull gweithredu presennol. Cydnabyddir yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn gyffredinol fel adnodd gwerthfawr sy'n dwyn ynghyd sawl ystyriaeth statudol a strategol yn un broses, sy'n helpu i wneud penderfyniadau mwy hyddysg a chytbwys ar wariant.

16. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau a blaenoriaethau allweddol – gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg, hawliau plant a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – ac wedi annog ffordd fwy integredig a chyfannol o ystyried effaith mewn penderfyniadau gwariant trawslywodraethol. Mae hyn yn helpu i leihau unrhyw effaith anghymesur ar unrhyw grŵp penodol yn ogystal â nodi cyfleoedd i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf i leihau anghydraddoldebau ym mhob rhan o'n cymdeithas.

17. Er mwyn adeiladu ar y cryfderau hyn, mae dull newydd wedi cael ei fabwysiadu i ddatblygu'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ar gyfer Cyllideb 2026-27. Yn bwysig ddigon, bydd yr Asesiad Effaith Integredig Strategol yn digwydd dros y cylch cyllidebol llawn a bydd yn cynnwys cyfres o weithdai rhyngweithiol a fydd yn cynnwys cyfraniadau gan ein hunedau tystiolaeth a dadansoddi, rhanddeiliaid allweddol yn ogystal â chydweithwyr polisi a chyllid i gael safbwynt gwirioneddol integredig. Mae'r sesiynau wedi'u llunio i fod yn gydweithredol, gan greu man lle y gall amrywiaeth eang o brofiadau fwydo i mewn i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

18. Yn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol ei hun, mae ein cymorth parhaus i'r trydydd sector yng Nghymru, sector mor amrywiol â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu,

yn enghraifft bwysig o'r ffordd rydym yn blaenoriaethu ystyriaethau cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol. Mae'r cymorth a roddir gan y trydydd sector i bobl a chymunedau yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a thlodi a gwella llesiant. Mae'r sefydliadau a gefnogwn yn y trydydd sector yn rhedeg cyfleusterau cymunedol ac yn darparu gwasanaethau, gan gynnwys cymorth arbenigol ym maes cam-drin domestig, gwasanaethau cynghori a chymorth noddfa sy'n meithrin cydlyniant cymunedol, yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli ac yn darparu nifer o weithgareddau i gefnogi llesiant. Mae'r gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector yn cynnwys darparu bwyd, dillad a thalebau tanwydd sydd hefyd yn helpu pobl ac aelwydydd ar incwm isel.

19. Mae'r Prif Grŵp Gwariant hefyd yn parhau i gefnogi swyddfa'r Comisiynydd Plant fel llais annibynnol i siarad dros blant a chynnal eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sy'n llywio ein prosesau gwneud penderfyniadau fel llywodraeth ac yn dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

## Sut rydym wedi ymgynghori â sefydliadau allweddol ac wedi cynnwys dinasyddion i lunio blaenoriaethau'r gyllideb

20. Rwyf yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, fel y gwna fy swyddogion, er enghraifft drwy Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, y Grŵp Cyfeirio Allanol ar Dlodi Plant, y Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl, Fforwm Hil Cymru, y Fforwm Cymunedau Ffydd a'r Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd i lywio'r broses o ddatblygu a chyflawni'r ystod o raglenni a mentrau y mae MEG Cyfiawnder Cymdeithasol yn eu cyllido.

21. Er enghraifft, rwyf wedi diogelu cyllid ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol. Mae sefydliadau allweddol fel Sefydliad Bevan, Cyngor ar Bopeth, Ymddiriedolaeth Trussell, Age Cymru a'r Groes Goch yn cael eu cynnwys yn rheolaidd yn y broses o ystyried sut y gellir targedu'r Gronfa Cymorth Dewisol i sicrhau ei bod yn rhoi'r cymorth cywir mewn argyfwng i'r rhai y mae ei angen arnynt.

22. Mae gweithgarwch ymgysylltu â sefydliadau anabledd a phobl anabl – drwy'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a'r Fforwm Cydraddoldeb i Bobl Anabl – wedi bod yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl, sydd i'w gyhoeddi'n ddiweddarach eleni. Rwyf hefyd wedi lansio rhaglen grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd i helpu i gyflawni Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol 2024-28 Llywodraeth Cymru, ac rwyf wedi dyrannu £800k o gyllid i'r rhaglen newydd ar gyfer 2025-26Bydd y cynlluniau yn sicrhau bod cyllid yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru, yn ei gwneud yn haws i gael gafael ar gyllid a'i gwneud yn fwy tryloyw, ac yn sicrhau y gall amrywiaeth ehangach o sefydliadau ddefnyddio eu profiad a'u creadigrwydd i helpu i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Mae'r grantiau wedi'u rhannu'n ddwy ffrwd: mae'r ffrwd gyntaf yn canolbwyntio ar annog trefniadau cydweithredol ac arloesol i alluogi sefydliadau yn y trydydd sector i feithrin cynhwysiant a chefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig; a bwriedir i'r ail ffrwd godi ymwybyddiaeth a gwella ymgysylltu â grwpiau lleiafrifol â phobl â nodweddion gwarchodedig.

23. Rydym hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid iaith arwyddion Prydain, gan gynnwys drwy'r Grŵp Rhanddeiliaid BSL sydd wedi datblygu cyfres o flaenoriaethau byrdymor o ran cymorth BSL cyn bod y Bil BSL yn mynd drwy'r Senedd. Mae'r

argymhellion hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a byddant yn llywio'r broses o ddatblygu ein Map Llwybr ar gyfer BSL.

24. Drwy ein perthynas â'r rhanbarthau VAWDASV a'r sector arbenigol, gwybodaeth gan bartneriaid y Glasbrint VAWDASV a'm cyfarfodydd â'r Cynghorwyr VAWDASV Cenedlaethol, tynnwyd sylw at bwysigrwydd ein cyllid refeniw a chyfalaf, gan gynnwys cyfleoedd i gynghorwyr VAWDASV rhanbarthol weithio mewn ffordd gydweithredol ac arloesol. Yn y gyllideb hon, rwyf wedi ystyried cynnydd o 30% yn ein cyllid Cyfalaf, ac wedi cynyddu cyllid i'r rhanbarthau er mwyn helpu i roi eu hamcanion VAWDASV ar waith yn unol â'n strategaeth genedlaethol.

## Sut mae cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd wedi llywio dyraniadau cyllidebol

25. Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhywedd wedi llywio cyllideb 2026-27, drwy helpu i ymgorffori cydraddoldeb, tryloywder, a phrosesau gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn y broses gyllidebol. Mae'r cynlluniau peilot yn atgyfnerthu pwysigrwydd trin y gyllideb fel adnodd i hyrwyddo cydraddoldeb, nid dim ond cyllido gwasanaethau. Mae hyn yn golygu mynd ati'n rhagweithiol i ystyried sut mae penderfyniadau ar wariant yn effeithio ar grwpiau gwahanol – yn enwedig menywod – a defnyddio ysgogwyr cyllidebol i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau strwythurol.

26. Dangosodd y cynlluniau peilot werth defnyddio data wedi'u datgrynhoi a phrofiad bywyd i lywio dewisiadau cyllidebol. Mae hyn wedi arwain at well cydweithio drwy weithdai rhwng dadansoddwyr, timau polisi, a rhanddeiliaid allanol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau cyllidebol wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn. Mae'r dadansoddiad macro a ddarparwyd gan ein hunedau Tystiolaeth yn ystyried sut mae rhywedd yn croestorri â ffactorau eraill megis oedran, ethnigrwydd, anabledd, a daearyddiaeth. Mae hyn wedi helpu i nodi ble mae anghydraddoldebau ar eu mwyaf acíwt a ble y gall buddsoddiad wedi'i dargedu gael yr effaith fwyaf.

27. O ran dyraniadau, er bod cyfyngiadau o hyd ar y gyllideb gyffredinol, mae cyllid wedi'i dargedu ym maes iechyd menywod, VAWDASV a rhaglenni sgiliau a chyflogaeth yn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r cynlluniau peilot. Er bod maint y newid mewn dyraniadau yn gymharol fach ar hyn o bryd, mae'r cynlluniau peilot wedi gosod sylfeini hollbwysig ar gyfer fframwaith sy'n fwy ymatebol i gyllidebu ar sail rhywedd.

## Sut mae'r gyllideb wedi cael ei llywio gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

28. Mae pob un o Ysgrifenyddion y Cabinet yn ymrwymedig i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ein nod yw ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac mae ein cynlluniau gwariant yn anelu at sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau byrdymor a hirdymor.

29. Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn egwyddor sefydledig o hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd wedi gosod ymrwymiad arnom i wneud datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol yn y llywodraeth ac ym mhob un o bortffolios y Cabinet. Mae hyn yn golygu bod datblygu cynaliadwy yn newid yr hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio er mwyn inni ddiwallu anghenion cenedlaethau presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

30. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r pum ffordd o weithio, i sbarduno gwelliant parhaus i'r broses gyllidebol. Mae'r Gyllideb Ddrafft hon yn dangos ymrwymiad clir i'r pum ffordd o weithio a amlinellwyd yn y Ddeddf—yn enwedig drwy ymgysylltu parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys Comisiynwyr Cymru, Cyngor y Bartneriaeth Gymdeithasol, y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb, Llywodraeth Leol a'r sector gwirfoddol.

31. Mae dyraniadau MEG wedi cael eu llywio i gynnal sefydlogrwydd gwasanaethau cyhoeddus, ac mae cynnydd oherwydd chwyddiant wedi cael ei gymhwyso rhwng adrannau. Mae'r dull gweithredu hwn yn cefnogi parhad a hefyd yn cyd-fynd â nodau'r Ddeddf, sef hyrwyddo ffyniant, cydraddoldeb, a gwydnwch i genedlaethau'r dyfodol. Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 hefyd yn adlewyrchu dull gweithredu cyfrifol a strategol, sy'n blaenoriaethu hynt cyllideb sefydlog yn hytrach na chyflwyno ymrwymiadau newydd. Mae hyn yn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu hyrwyddo ac mae'n osgoi'r risgiau sy'n gysylltiedig â methiant i benderfynu ar gyllideb, a allai darfu ar wasanaethau hanfodol.

32. Mae'r ffaith i Lywodraeth Cymru gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar gam cynnar ynghyd â'i phroses ymgysylltu strwythuredig yn adlewyrchu safiad rhagweithiol o ran craffu a thryloywder, sy'n ei gwneud yn bosibl i sicrhau gwell cysondeb ag egwyddorion y Ddeddf a meithrin ymddiriedaeth mewn cyllid cyhoeddus.

33. Er inni gyhoeddi cyllideb blwyddyn ar 14 Hydref, nid yw hynny'n cyfyngu ar ein gallu i gynllunio ar gyfer y tymor hwy ac mae ein hymrwymiad i gyllid tair blynedd (amlflwydd) yn y trydydd sector o ganlyniad i'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, wedi cael ei groesawu, sy'n diogelu seilwaith y sector gwirfoddol. Bydd gwaith Adolygiad Gwariant Cymru yn dod yn rhan allweddol o'n proses gyllidebol, a dyma lle byddwn yn ystyried sut rydym yn gweithredu yn y dyfodol. Mae'n ddull arwyddocaol a strategol o gynllunio yn y tymor canolig a'r tymor hwy i Gymru, gan ymdrin â heriau'r dyfodol a chyfleoedd o safbwynt trawslywodraethol ac o safbwynt gweithredu mwy ataliol.

34. Rydym yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio drwy gydol y dull gweithredu hwn, gan atgyfnerthu uchelgeisiau hirdymor Llywodraeth bresennol Cymru a Llywodraethau Cymru yn y dyfodol. Mae'r ymrwymiad hwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd, tegwch a gwydnwch wrth ei wraidd. Mae'r dull gweithredu eisoes yn meithrin cydweithrediad trawslywodraethol a thraws-sector ystyrlon gyda phwyslais clir ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol dros yr hirdymor, yn hytrach nag ymateb i bwysau byrdymor yn unig.

35. Rydym yn parhau i ddatblygu'r gyfres o ddogfennau a gyhoeddwn ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft. Mae hyn yn cynnwys Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru

sy'n rhoi adroddiad llawnach ar ddatblygiadau economaidd a rhagolygon cyllidol Cymru. Mae'r gwaith hwn yn ategu Adroddiad Llesiant Cymru. Rydym hefyd yn parhau i gynghori ar y ffordd y cymhwysir egwyddorion y Llyfr Gwyrdd yng nghyd-destun Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

36. Er mwyn ein cefnogi yn hyn o beth, rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb sy'n cynghori Llywodraeth Cymru o safbwynt cydraddoldebau a chynhwysiant. Nod y grŵp hwn yw ymgysylltu a sbarduno gwelliannau i'n prosesau cyllidebu a threthu a fydd, yn eu tro, yn helpu i gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb. Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi gweithio gyda swyddogion yn swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ystyried sut y gallwn adlewyrchu'n gliriach y pum ffordd o weithio fel rhan ganolog o'n prosesau gwneud penderfyniadau yn y dyfodol. Rwyf wedi ystyried yr holl dystiolaeth a roddwyd yn Adroddiad Llesiant Cymru 2025 wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft hon.

37. Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru eu hadroddiadau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025 ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol “Dim amser i’w golli: Gwersi o’n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”. Canolbwyntiodd y ddau adroddiad ar ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn prosesau cyllidebol.

38. Mae Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys adran benodol ar Bennu'r Gyllideb ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys pedwar argymhelliad i Lywodraeth Cymru. Roedd yr argymhellion hyn yn ymwneud â gwariant ataliol a phrosesau pennu cyllideb amlflwydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'r argymhellion a bydd yn rhoi'r rhai a dderbyniwyd ar waith.

### Enghreifftiau o Arferion da mewn Cyllidebau Polisi

39. Mae'r saith nod llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r cyfan a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru. Fel astudiaeth achos, mae gwaith Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb a mynd i'r afael â thlodi yn ymgorffori'r pum ffordd o weithio ac yn mabwysiadu dull hirdymor ac ataliol o ymdrin â'r hyn sydd yn aml yn annhegwch sy'n pontio'r cenedlaethau.

40. Er enghraifft, mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys y nod hirdymor o sicrhau Cymru wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cyd-fynd â'r Nodau Llesiant, yn enwedig nodau Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, a Cymru sydd â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, gan gryfhau ein hymdrechion cyfunol drwy ddangosyddion a cherrig milltir a rennir. Wrth weithio tuag at gau bylchau cyflog ar sail rhywedd, anabledd, ac ethnigrwydd erbyn 2050, rydym eisoes wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ar ei Bil Cydraddoldeb (Hil ac Anabledd) arfaethedig. Bydd y Bil hwn yn estyn y gofyniad i adrodd ar fylchau cyflog ar sail ethnigrwydd ac anabledd i gyflogwyr sydd â mwy na 250 o staff, gan helpu i ddiogelu gweithwyr rhag gwahaniaethu ar sail hil ac anabledd.

41. Bu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn allweddol o ran llywio'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan ymgorffori ffyrdd cydweithredol, ataliol a hirdymor o weithio wrth ei wraidd. Adlewyrchir gwaith ataliol mewn croestoriadedd a chamau cadarnhaol fel themâu trawsbynciol sy'n rhedeg drwy'r Cynllun cyfan. Adlewyrchir gwaith ataliol hefyd mewn camau gweithredu yn y Cynllun, gan gynnwys y dull Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth ym maes addysg a gofal plant. Datblygwyd y cynllun drwy gynnwys a chydgynhyrchu, ac roedd profiadau bywyd yn ganolog i'r broses o'i ddatblygu a'i gyflwyno. Mabwysiadwyd y dull cydgynhyrchu hwn yn y Tasglu Hawliau Pobl Anabl ac wrth ddatblygu'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl arfaethedig. Dull trawslywodraethol ac integredig sy'n sail i'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a hefyd y Cynllun Gweithredu LHDTC+, lle mae cydweithio drwy'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn rhan annatod o'r broses o'u rhoi ar waith.

42. Mae ein gwaith ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn enghraifft glir o'r ffordd y mae gweithredu'n unol ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cefnogi ac yn galluogi dull mwy cynaliadwy o ymateb i heriau dros y cenedlaethau. Mae Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig y mae Nodau Llesiant Cymru yn cyfrannu atynt, yn cynnwys nod a tharged penodol i ddileu trais yn erbyn menywod a merched. Mae ein gwaith i fynd i'r afael â VAWDASV yng Nghymru, sy'n seiliedig ar y Ddeddf VAWDASV, yn parhau i ddangos yn glir y pum ffordd o weithio o dan yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Yn y gyllideb hon, rydym yn cynyddu'r cyllid ar gyfer gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal; parhau i gefnogi cydweithio drwy'r Glasbrint, gan gynnwys panel goroeswyr sy'n cynnwys goroeswyr mewn prosesau gwneud penderfyniadau; integreiddio gwaith awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol drwy eu priod ddyletswyddau o dan y Ddeddf VAWDASV; a chynyddu cyllid i ddatblygu data gwell, gan gynnwys tueddiadau yn y dyfodol er mwyn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau gwell i fynd i'r afael â VAWDASV ledled Cymru.

43. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gefnogi cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol drwy barhau i gryfhau ein partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol. Mae ein gwaith i ddatblygu'r Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector, y Dull Newydd o Wirfoddoli a'r Fframwaith ar gyfer Ymgysylltu wedi'i wreiddio yn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio, rydym wedi llwyddo i ddeall yr ysgogwyr sylfaenol a'r newid sydd ei angen i symud i arferion ataliol.

# 2. Unedau Data Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

**Mae £0.1m o refeniw ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r Unedau Data fel rhan o Gyllideb Ddrafft 2026-27 i ddiwallu anghenion sy'n dod i'r amlwg o ran tystiolaeth ym meysydd hil, anabledd, rhywedd neu LHDTC+.**

## Llywio penderfyniadau cyllidebol

44. Mae Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd Llywodraeth Cymru wedi paratoi sawl darn allweddol o dystiolaeth ers iddynt gael eu sefydlu ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i gefnogi penderfyniadau polisi a llywio'r broses o ddyrannu'r gyllideb. Rhoddodd yr Unedau Tystiolaeth grynodeb lefel macro o'r dystiolaeth ar yr holl nodweddion gwarchodedig a gwybodaeth groestoriadol i nodi ar bwy y byddai gwariant yn cael yr effaith fwyaf er mwyn llywio penderfyniadau'r Cabinet. Roedd hyn yn golygu syntheseiddio amrywiaeth o dystiolaeth a oedd ar gael mewn perthynas â blaenoriaethau allweddol y Prif Weinidog. Ystyriwyd y dystiolaeth hon gan y Cabinet wrth wneud penderfyniadau ar y brif strategaeth a dull gweithredu ar gyfer y gyllideb. Mae pobl sy'n perthyn i grwpiau cydraddoldeb sydd â nodweddion gwarchodedig croestoriadol lluosog yn fwy tebygol o wynebu effeithiau negyddol o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol am feysydd a gwasanaethau polisi penodol o'u cymharu â phobl heb nodweddion o'r fath. Bydd y dystiolaeth hon yn cael ei dangos yn yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o Gyllideb 2026-27.

## Darparu unedau

45. Bydd y cyllid a ddyrennir ar gyfer yr unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn eu helpu i gyflawni eu gwaith drwy raglen waith i wella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd tystiolaeth ynglŷn â chydraddoldebau fel ein bod yn deall yn llawn y lefel a'r mathau o anghydraddoldebau ledled Cymru. Roedd hyn yn ofyniad o dan ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i "Creu Uned Gwahaniaethau ar sail Hil ochr yn ochr ag Uned Data Cydraddoldeb er mwyn sicrhau sylfaen dystiolaeth gynhwysol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau yn y llywodraeth”.

46. Un o flaenoriaethau'r staff yn yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yw datblygu'r dull gweithredu a'r dystiolaeth i fesur effaith cynlluniau gweithredu allweddol ar gydraddoldeb: y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol; y Cynllun Gweithredu LHDTC+; y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yng Nghymru; a'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl arfaethedig. Mae'r Unedau Tystiolaeth wedi paratoi sawl darn allweddol o dystiolaeth a ddefnyddir i gyflawni eu cenhadaeth. Er enghraifft: Adolygiad o ffynonellau ac allbynnau data Llywodraeth Cymru ar gydraddoldeb; Llesiant Cymru 2025: y bennod ar Gymru sy'n fwy cyfartal; ac ystyried sut y gellir defnyddio cydgynhyrchu i wella tystiolaeth.

47. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn cyhoeddi eu hallbynnau a'u cynnydd yn rheolaidd ar eu gwefan. Prosiectau tystiolaeth trawsbynciol yw llawer o'r gwaith a gyflawnir yn bennaf, a fyddai'n gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gydraddoldebau ar draws meysydd

portffolio sy'n cefnogi gofynion Llywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Ddeddf Hawliau Dynol.

# 3. Mynd i'r afael â thlodi, costau byw a lleihau anghydraddoldeb

**Un flaenoriaeth allweddol yn fy mhortffolio fu defnyddio'r holl ysgogwyr sydd ar gael i leihau anghydraddoldebau a mynd i'r afael â thlodi er mwyn sicrhau cyfleoedd i bob teulu a gwella canlyniadau i bobl dros y tymor hwy.**

## Mynd i'r afael â thlodi

48. Bydd y dyraniadau cyllidol yn y Gyllideb Ddrafft yn mynd i'r afael â thlodi drwy gefnogi'r broses o gydgysylltu gweithgarwch trawslywodraethol a galluogi cydweithio cadarn ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi. Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau sy'n lleihau costau, yn rhoi pwyslais ar incwm, ac yn creu llwybrau i blant a theuluoedd ddianc rhag tlodi.

49. Fel y nodais eisoes, mae'r cynnydd mewn refeniw oherwydd chwyddiant wedi cael ei gymhwyso'n gyfartal ym mhob Llinell Wariant yn y Gyllideb yn MEG Cyfiawnder Cymdeithasol, sy'n cydnabod bod dull system gyfan yn hanfodol. Rwyf hefyd wedi adolygu fy holl linellau yn y gyllideb yn ofalus er mwyn chwilio'n benodol am gyfleoedd i ailbwrpasu cyllid, gan ddefnyddio'r holl ysgogwyr sydd ar gael i sicrhau'r effaith fwyaf i bawb sy'n wynebu'r angen mwyaf. Drwy hyn, bu modd cynyddu Llinellau Gwariant yn y Gyllideb yn ychwanegol at y cynnydd unffurf o 2% oherwydd chwyddiant mewn nifer o feysydd allweddol lle mae'r angen a'r galw mwyaf. Ceir dadansoddiad manwl o'r holl ddyraniadau penodol hyn yn **Atodiad B** ond ar gyfer mynd i'r afael â thlodi yn benodol, rwyf wedi gwneud y canlynol:

- Drwy'r Gyllideb Ddrafft hon, rwy'n dyrannu swm ychwanegol o **£0.7m** uwchlaw'r cynnydd safonol oherwydd chwyddiant ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Cymunedau i roi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith – **£0.45m** i gynyddu cyllid ar gyfer y grant Tlodi Plant i hwyluso'r gwaith o ddatblygu darpariaeth fwy arloesol o wasanaethau sydd eu hangen yn fawr yn y maes hwn, a **£0.25m** i barhau i gefnogi Cymuned Ymarfer y Strategaeth Tlodi Plant Genedlaethol. Plant yw'r grŵp poblogaeth sydd fwyaf tebygol o fod mewn tlodi incwm cymharol, ac mae'r cyfraddau yn dal i fod yn uchel. Y rhai o'r aelwydydd tlotaf sy'n wynebu'r risg fwyaf o fod yn blant sy'n derbyn gofal a datblygu cyflyrau iechyd meddwl, sy'n ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn wynebu caledi pan fyddant yn oedolion. Mae diogelu gwasanaethau sy'n atal tlodi neu sy'n mynd i'r afael â thlodi, yn enwedig tlodi plant, yn hollbwysig – bydd i doriadau i wasanaethau o'r fath oblygiadau nid yn unig o ran plant a phobl ifanc ar hyn o bryd ond goblygiadau i iechyd y cyhoedd o ran cenedlaethau'r dyfodol.

- Rwyf wedi dyrannu refeniw ychwanegol o **£0.5m** i'r gyllideb **Gwasanaethau Cynghori** er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith ar **Symleiddio Budd-daliadau Cymru** a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

50. Rydym yn parhau i wneud buddsoddiad sylweddol o **£16m** mewn Gwasanaethau Cynghori, er mwyn cefnogi gwaith ar wneud y defnydd gorau o incwm a mynediad at wasanaethau cynghori, gan gynnwys: cyllid ar gyfer gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ym maes lles cymdeithasol a ddarperir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl (£12m y flwyddyn am 3 blynedd); rhoi hyfforddiant i weithwyr rheng flaen; a gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r budd-daliadau y mae gan bobl yr hawl i'w cael. Mae problemau lles cymdeithasol yn fwy cyffredin ymhlith y grwpiau poblogaeth sydd o dan yr anfantais fwyaf ac sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf. Yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, roedd 83% o'r bobl a ddefnyddiodd wasanaeth y Gronfa Gynghori Sengl yn dod o un o grwpiau blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: pobl o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol, pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd hirdymor, pobl hŷn, gofalwyr pobl hŷn a theuluoedd incwm isel â phlant.

51. Mae cyllid sy'n cael ei sianelu drwy fy nghyllideb **Cefnogi Cymunedau** (**£7.6m ar gyfer 2026-27**) hefyd yn chwarae rôl allweddol o ran nod fy mhortffolio o fynd i'r afael â thlodi, a thrwy'r cynlluniau cyllidebol hyn byddaf yn parhau â'r cyllid mewn termau real ar gyfer cymorth bwyd brys, cymorth i'r rhai mewn tlodi tanwydd a darparu mannau diogel a chynnes.

52. Rwyf hefyd wedi dewis dyrannu'r cynnydd cyfalaf llawn o **£0.4m** oherwydd chwyddiant o dan MEG Cyfiawnder Cymdeithasol i gyllideb **Cynhwysiant Ariannol** a fydd yn creu rhaglen cyllid cyfalaf ar gyfer undebau credyd. Bydd cyllid cyfalaf penodedig yn galluogi dull mwy strategol a thecach o ariannu'r sector – yn hytrach na bod yn adweithiol drwy gynigion ad hoc sy'n dibynnu ar danwariannau yn ystod y flwyddyn mewn rhannau eraill o'r Prif Grŵp Gwariant.

## Cefnogi cymunedau

53. Mae'r cyllid yn fy nghyllideb **Cefnogi Cymunedau** fy hun wedi'i dargedu'n bennaf at gefnogi'r rhai tlotaf yn ein cymunedau a'r rhai sy'n wynebu'r anawsterau mwyaf gyda thlodi a chostau byw. Mae elfen sylweddol wedi'i thargedu'n uniongyrchol at y rhai mewn argyfwng, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol, ein Cymorth Bwyd Brys a'n cymorth tanwydd mewn argyfwng. Rwyf hefyd yn cefnogi mentrau a sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r tlotaf yn eu cymunedau, gan gynnwys drwy'r Grant Tlodi Plant, Undebau Credyd a Phartneriaethau Bwyd Lleol. Yn fwy cyffredinol, mae ein dadansoddiad dosbarthiadol cyhoeddedig wedi dangos bod cyfran sylweddol o'n cyllideb yn cefnogi'r rhai ar yr incwm isaf. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad dosbarthiadol tebyg ochr yn ochr ag ail gam y Gyllideb Ddrafft.

## Strategaeth Tlodi Plant

54. Bydd adroddiad cynnydd Strategaeth Tlodi Plant Cymru, a fydd yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn ystod y flwyddyn hon, yn rhoi diweddariad ar y cynnydd a wnaed gennym o ran mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru a lliniaru effeithiau gwaethaf byw mewn tlodi ar blant. Ochr yn ochr â'r adroddiad cynnydd, byddaf hefyd yn cyhoeddi data yn erbyn y Fframwaith Monitro a fydd yn manylu ar y cynnydd yn erbyn mesurau llesiant, a byddaf hefyd yn cyhoeddi tystiolaeth gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sydd â phrofiad bywyd o dlodi ledled Cymru.

55. Ceir buddsoddiad sylweddol ym mhob rhan o'r llywodraeth i helpu i gyflawni'r Strategaeth Tlodi Plant. Drwy'r cymorth a roddaf yn fy Mhrif Grŵp Gwariant fy hun rydym yn buddsoddi mewn ymyriadau a fydd yn lliniaru pwysau ariannol, yn lleihau costau ac yn gwneud y defnydd gorau o incwm teuluoedd ac yn cadw arian ym mhocedi dinasyddion Cymru yn unol ag Amcan 1 o'n Strategaeth. Mae hyn yn cynnwys rhoi cymorth i gynlluniau sy'n helpu i fynd i'r afael â thlodi bwyd a thanwydd drwy gymorth bwyd brys, Partneriaethau Bwyd Lleol a chyllid ar gyfer y Sefydliad Banc Tanwydd yn ogystal â chyllid sylweddol ar gyfer y Gronfa Gynghori Sengl a'r Gronfa Cymorth Dewisol. Rhoddir ffocws allweddol hefyd ar gymorth ar gyfer y gwaith i symleiddio budd-daliadau Cymru.

56. Er mwyn ategu'r cam gweithredu ar fudd-daliadau Cymru, parheir â'r ymgyrch flaenllaw ***Hawliwch yr Hyn sy'n Ddyledus i Chi***. O'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth gyntaf yn 2021 hyd at fis Mawrth 2025, mae'r fenter genedlaethol hon i annog pobl i hawlio budd-daliadau eisoes wedi helpu mwy na 96,000 o bobl i hawlio mwy na £32.7 miliwn o incwm ychwanegol.

57. Cyflwynwyd y **Gronfa Gynghori Sengl** ym mis Ionawr 2020, ac erbyn mis Mawrth 2025 roedd wedi helpu mwy na 388,000 o bobl o gymunedau o dan yr anfantais fwyaf ac sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf i gael incwm ychwanegol o fwy na **£208.9m**, a chael dyledion gwerth **£66.3m** wedi'u dileu. Mae'n cyrraedd y bobl hynny sy'n wynebu'r angen mwyaf drwy weithio gyda phartneriaid mynediad ac atgyfeirio yn y rhanbarthau. Mae'n mabwysiadu model cyflawni sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau y gellir cael gafael ar y gwasanaethau cynghori drwy amrywiaeth o sianeli yn unol ag anghenion yr unigolyn, h.y. wyneb yn wyneb, dros y ffôn, e-bost a gwe-sgwrs. Mae'r camau gweithredu hyn yn cefnogi Ymrwymiad 2 y Strategaeth Tlodi Plant.

58. Yn y cynlluniau a gyhoeddwyd ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2026-27, rwyf wedi llwyddo i flaenoriaethu cyllid refeniw ychwanegol ar gyfer rhoi'r Strategaeth Tlodi Plant ar waith, gan gynnwys **£0.45m** i gynyddu cyllid ar gyfer y Grant Tlodi Plant a **£0.25m** ychwanegol i barhau i gefnogi Cymuned Ymarfer y Strategaeth Tlodi Plant sy'n hafal i **gynnydd wedi'i dargedu o £0.7m** ar gyfer Llinell Wariant yn y Gyllideb Cefnogi Cymunedau. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni yn erbyn Amcan 5 ein Strategaeth – galluogi cydweithio cadarn ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi a hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy arloesol.

## Cefnogi aelwydydd gyda phwysau costau byw

59. Mae'r **£7 biliwn** sydd wedi rhoi cymorth i aelwydydd ledled Cymru liniaru pwysau ariannol, eu helpu i wneud y defnydd gorau o'u hincwm a'u helpu i gadw mwy o arian yn eu pocedi yn cynnwys rhaglenni megis y Gronfa Gynghori Sengl a'r Gronfa Cymorth Dewisol, cyflwyno Prydau Ysgol am Ddim, y Grant Hanfodion Ysgol a'n Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Gan mai blaenoriaeth drawslywodraethol yw mynd i'r afael â thlodi, mae gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn y £7 biliwn hefyd yn cynnwys rhaglenni megis presgripsiynau am ddim, archwiliadau deintyddol a llygaid am ddim, cymorth i fyfyrwyr, y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, cyflog byw gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol a Dechrau'n Deg.

## Cymorth mewn argyfwng

60. Rydym yn rhoi cymorth i aelwydydd incwm isel yn wahanol yng Nghymru ac nid oes gennym un gronfa yn y ffordd y bu yn Lloegr a'r hyn a gynigir o dan y Gronfa Argyfwng a Gwydnwch. Yng Nghymru, mae cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd ei angen fwyaf yn cael ei roi drwy raglenni megis ein **Cronfa Cymorth Dewisol**, cymorth ar gyfer cost y diwrnod ysgol, cymorth tai / digartrefedd a chyllid ar gyfer talebau tanwydd a chymorth bwyd brys.

61. Mae fy nghyllideb ar gyfer **Cynhwysiant Ariannol** yn cynnig cymorth uniongyrchol i unigolion sy'n profi caledi ariannol a bydd yn cynyddu **£0.7m** yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 a fydd yn golygu cyfanswm o **£40.8m** ar gyfer y gyllideb. Mae hyn yn cynnwys tua **£39m** ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol.

62. Mae'r Gronfa Cymorth Dewisol, a ddarperir yn gyson ledled Cymru, yn parhau i roi cymorth brys hollbwysig i'r rhai mewn argyfwng heb unrhyw gymorth arall ac i helpu pobl i symud i ffordd o fyw fwy sefydlog ar ôl argyfwng.

63. Yn yr un modd, drwy'r gyllideb **Cefnogi Cymunedau** (**£7.6m ar gyfer 2026-27**), byddaf yn parhau i fuddsoddi mewn cymorth tanwydd a bwyd brys yn ogystal â chamau gweithredu mwy cydweithredol drwy'r Partneriaethau Bwyd Lleol, Synnwyr Bwyd Cymru a'n cymunedau ymarfer i ystyried ffyrdd o leihau dibyniaeth ar gymorth bwyd brys a datblygu atebion bwyd â mwy o ffocws ar y gymuned.

64. Y tu allan i'm portffolio, mae'r Grant Hanfodion Ysgol wedi helpu i leihau costau prynu dillad a chyfarpar ysgol i lawer o deuluoedd, a thrwy Gynllun Nyth Cartrefi Clyd, rydym yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd i berchnogion tai ac aelwydydd sy'n rhentu oddi wrth landlordiaid preifat.

## Siarter Budd-daliadau Cymru

65. Bydd y gwaith ar symleiddio'r ffordd y gweinyddir budd-daliadau Cymru gyda phob un o'r 22 o awdurdodau lleol yn ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar y cymorth ariannol y mae ganddynt yr hawl i'w gael ac yn rhoi dyheadau Siarter Budd-daliadau Cymru ar waith. Cyhoeddwyd map llwybr o Gam Un Symleiddio Budd-daliadau Cymru sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a'r allbynnau lefel uchel y disgwylir iddynt gael eu cyflawni erbyn mis Ebrill 2026 ym mis Ionawr 2025. Yn y Gyllideb Ddrafft rwyf wedi **dyrannu £0.5m ychwanegol** i Linell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori er mwyn parhau i gefnogi'r gwaith ar symleiddio Budd-daliadau Cymru a chefnogi gallu partneriaid cyflawni allweddol i fwrw ymlaen ag unrhyw waith yn y maes hwn.

# 4. Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chydlyniant Cymunedol

### Mae cyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol wedi cynyddu £0.8m drwy Gyllideb Ddrafft 2026-27; mae cyllideb Cydlyniant Cymunedol hefyd wedi cynyddu £0.2m.

66. Mae cyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol yn cefnogi'r grwpiau sy'n wynebu'r anfantais fwyaf yn uniongyrchol, ac yn aml, y grwpiau hyn yw'r rhai y mae'r cyd-destun ariannol presennol yn effeithio arnynt fwyaf. Yn benodol, o fewn y cynigion a amlinellir yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27, mae'r dyraniadau ychwanegol a nodir isod, sy'n hafal i gynnydd cyffredinol o **£0.8m** wedi cael eu cymhwyso at gyllideb Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant **(£0.2m)** yn ogystal â dau ddyraniad wedi'u targedu: dyraniad o **£0.4m** i helpu i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i greu Gwasanaeth Cydraddoldebau Cyfreithiol; a **£0.2m** i ariannu costau blwyddyn gyntaf rhoi'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ar waith.

67. Mae cynllun grantiau Cydraddoldeb a Chynhwysiant newydd bellach wedi'i lansio i ariannu gweithgareddau sy'n helpu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol; cyllideb gyffredinol y cynllun grantiau yw £0.8m a gaiff ei ddyfarnu ar gyfer gweithgareddau codi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu, ac ar gyfer arloesi i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a chefnogi pobl. Bwriedir i'r cynllun newydd wella cydlyniaeth, hygyrchedd a thryloywder, a galluogi amrywiaeth ehangach o sefydliadau i ddefnyddio eu profiad a'u creadigrwydd i helpu i gyflawni'r Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol a'r Cynllun Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Strategol.

68. Drwy'r grant cystadleuol hwn bydd amrywiaeth ehangach o sefydliadau yn y trydydd sector yn gallu cael gafael ar gyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru nag oedd yn bosibl yn flaenorol. Mae'r grantiau bach a ddarperir o dan yr elfen Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu yn creu cyfleoedd cyllido i sefydliadau bach na fyddent wedi cael mynediad at gyllid Cydraddoldeb a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru yn flaenorol.

69. Amlinellir sut mae'r broses gyllidebu wedi cael ei chryfhau i adlewyrchu ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol ym mharagraffau 14-17 uchod. O ran grantiau, mae'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau a Chyfiawnder Cymdeithasol yn treialu dull o bennu amodau grant i gryfhau'r ystyriaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol. Rydym wedi cynnwys cymalau yn y llythyrau grant i sicrhau bod anghenion gwahanol grwpiau cydraddoldeb yn cael eu hystyried er mwyn lleihau anghydraddoldebau a chefnogi Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol Llywodraeth Cymru a'r cynlluniau gweithredu cydraddoldeb sy'n sail iddynt. Ystyrir hyn fel rhan o'r gwaith o fonitro'r grantiau hyn. Caiff y gwersi a ddysgwyd o hyn eu rhannu â phob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn llywio grantiau o 2026-27 ymlaen.

## Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu LHDTC+ a'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau

70. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, ac mae'r dyraniadau yn canolbwyntio ar ymgorffori gwrth-hiliaeth ym mhob un o bortffolios y llywodraeth, gan gryfhau systemau atebolrwydd, a chefnogi ymgysylltu â chymunedau drwy gynullwyr a rhaglenni ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol megis y grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Gwerthusir effaith drwy adroddiadau cynnydd is-grŵp y Grŵp Atebolrwydd Allanol a goruchwyliaeth annibynnol y Grŵp Atebolrwydd Allanol.

71. Wrth gyflawni'r Cynllun Gweithredu LHDTC+, rydym yn parhau i adrodd ar gynnydd drwy'r Diweddariad ar Gynnydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+. Bydd cyllid yn y Gyllideb Ddrafft yn helpu sefydliadau partner i gyflawni'r cynllun ac mae'r ymgyrch ‘Mae Casineb yn Brifo Cymru’ yn parhau i gefnogi'r rhai sydd wedi cael profiad o droseddau casineb mewn perthynas â chyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd.

72. Mae'r Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau yn nodi gweledigaeth a chamau gweithredu trawslywodraethol i sicrhau cydraddoldeb rhywedd yng Nghymru. Mae'r Fforwm Cydraddoldeb Rhywiol yn helpu i gyflawni nodau ac amcanion y Cynllun. Bydd cyllid yn y Gyllideb Ddrafft yn parhau i ganolbwyntio ar hyrwyddo cydraddoldeb rhywedd a sicrhau bod profiadau bywyd yn cael eu hintegreiddio yn y broses o gyflawni'r Cynllun, gan ymgorffori dull croestoriadol.

73. Mae ein Hunedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn monitro ac yn gwerthuso effaith ein cynlluniau cydraddoldeb. Bydd angen gwerthusiad cynhwysfawr o ran atebolrwydd (sicrhau bod y cynlluniau yn cyflawni'r hyn y maent wedi'u hanelu at ei gyflawni) a dysgu (deall yr hyn y bydd angen ei newid er mwyn sicrhau y gall y cynlluniau gyflawni eu hymrwymiadau yn effeithiol a gwella canlyniadau).

74. Mae'r Unedau Tystiolaeth yn cynnwys Ymchwilwyr Cymdeithasol y Llywodraeth, a fydd yn gwerthuso'r cynlluniau yn unol â'r egwyddorion ar gyfer monitro a gwerthuso a nodwyd yn y **Llyfr Magenta** a'r **Llyfr Gwyrdd**. Mae proffesiwn Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth yn Llywodraeth Cymru yn gweithredu'n annibynnol ar dimau polisi. Caiff ei dywys gan God Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth, sydd â'r nod o sicrhau uniondeb dadansoddol a sicrhau bod ei holl ymchwil yn ddiduedd, yn fethodolegol gadarn, ac yn rhydd o ddylanwad amhriodol.

75. Mae'r dull gwerthuso cynhwysfawr/cymysg hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson at y cynlluniau, ac mae hefyd yn cyfrif am agweddau cynnil ar y cynlluniau unigol a'r amseriad o ran pryd y cafodd pob un ei sefydlu. Mae'r elfennau allweddol o'n dull gweithredu yn cynnwys:

- Damcaniaethau newid (i fapio'n systematig sut rydym yn disgwyl i gamau gweithredu arwain at ganlyniadau a ddymunir a'r effaith gyffredinol – gan gynnwys yr Amcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol);
- Fframweithiau mesur (i nodi dangosyddion a mesurau a gaiff eu defnyddio i lywio cymariaethau dros amser);

- Gwerthusiadau o broses (i ddeall sut mae ymyriadau yn cael eu rhoi ar waith, a nodi rhwystrau a galluogwyr i gyflawni);
- Gwerthusiadau o effaith (i asesu pa newidiadau sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r ymyriadau).

76. Mae'r dull gweithredu hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymgorffori profiad bywyd drwy gydol y camau gwerthuso, yn enwedig defnyddio data ansoddol a mewnbwn gan y grwpiau cynghori allanol. Ar y cyfan, bwriedir i'r dull gweithredu hwn roi asesiad cynhwysfawr, cadarn a hygyrch o'r cynlluniau.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod

77. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £143,515 o gyllid i gefnogi dadansoddiad y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol o opsiynau ynglŷn â chorffori sy'n cwmpasu gwaith o fis Ionawr 2024 tan fis Mawrth 2026. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys amser staff mewnol Llywodraeth Cymru sydd hefyd wedi'i ddyrannu.

78. Nid oes unrhyw ddyraniad penodol wedi'i bennu eto ar gyfer unrhyw wariant sy'n ymwneud â'r Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol yn y Gyllideb Ddrafft arfaethedig; bydd penderfyniadau yn dibynnu ar ystyriaeth Weinidogol o adroddiad y Gweithgor Opsiynau Deddfwriaethol pan gaiff ei gyhoeddi yn 2026.

## Cydraddoldeb Pobl Anabl

79. Rwyf yn gwbl ymrwymedig i gyflawni'r Cynllun Hawliau Pobl Anabl trawslywodraethol. Bydd y dyraniadau a wneuthum yn y Gyllideb Ddrafft yn parhau i gefnogi'r gwaith a gychwynnwyd gan y **Tasglu Hawliau Pobl Anabl,** a sefydlwyd mewn ymateb uniongyrchol i **Drws ar Glo: Datgloi bywydau a hawliau pobl anabl yng Nghymru ar ôl COVID-19**.

80. Gwnaeth 10 gweithgor thematig y Tasglu ddwyn ynghyd fwy na 350 o randdeiliaid allanol a mwy na 200 o arweinwyr polisi o bob rhan o'r llywodraeth i lunio argymhellion o ansawdd uchel.

81. Mae'r argymhellion hyn wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gwnaethant lywio **Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft 2025-2035** sydd wedi'i ffurfio gan y Model Cymdeithasol o Anabledd ac sydd wedi'i wreiddio yn egwyddorion a rhwymedigaethau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl.

82. Cyhoeddwyd y Cynllun Hawliau Pobl Anabl drafft ar gyfer ymgynghoriad ar 15 Mai 2025 fel strategaeth 10 mlynedd drawslywodraethol. Mae'n amlinellu **camau gweithredu** trawslywodraethol byrdymor a chanlyniadau trawslywodraethol hirdymor er mwyn sicrhau y gall pobl anabl ffynnu fel aelodau cydradd o gymdeithas Cymru.

83. Cynhaliodd y Tasglu Hawliau Pobl Anabl ei gyfarfod olaf ym mis Ionawr 2025 i adolygu'r fframwaith ar gyfer y Cynllun drafft, ac mae Bwrdd Cynghori Allanol yn cael ei sefydlu i gefnogi'r broses o roi'r Cynllun ar waith, ei gyflawni, a'i effaith.

## Cydlyniant Cymunedol

84. Mae cyllideb **Cymunedau Cydlynus** o **£10m** (sydd wedi cael cynnydd o £0.2m yn 2026-27) yn dangos fy ymrwymiad parhaus i gefnogi cymunedau a meithrin cydberthnasau da, hyrwyddo cyfle cyfartal a herio troseddau casineb a thensiynau cymunedol. Mae'r gyllideb hefyd yn cefnogi'r gwaith o integreiddio mudwyr, gan gynnwys cymorth i ffoaduriaid a cheiswyr lloches, y bydd ganddynt un neu fwy o nodweddion gwarchodedig lleiafrifol yn aml, ac a fydd, felly, yn fwy tebygol o gael budd o'n gwaith i ddileu anghydraddoldebau.

85. Bydd y dyraniadau a wneuthum yn y Gyllideb Ddrafft hon yn ein helpu i feithrin cydlyniant cymunedol, gan gynnwys drwy weithredu ar argymhellion Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd o'r Ymchwiliad 'Cyd-dynnu, nid tynnu'n groes', yn ogystal â chymryd y camau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+.

86. Rwyf wedi parhau â'n cyllid o **£1.6m** ar gyfer y **Rhaglen Cydlyniant Cymunedol** yn 2026-27 ac wedi cytuno ar gyllid amlflwydd ar gyfer y rhaglen tan fis Mawrth 2029. Mae hyn yn rhoi cyllid i'r wyth rhanbarth cydlyniant i gefnogi cydgysylltwyr a swyddogion cydlyniant ym mhob rhanbarth ac mae'n cynnwys cronfa grantiau bach. Bydd hyn yn sicrhau y gall ein timau rhanbarthol sydd wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol barhau i adeiladu ar eu gwaith i feithrin cydberthnasau da rhwng grwpiau, hyrwyddo cyfle cyfartal, a mynd i'r afael â thensiynau cymunedol ac erledigaeth.

87. Rwy'n parhau â'n cyllid ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â chasineb. Mae hyn yn cynnwys parhau â **Gwasanaeth Cymorth Casineb Cymru** sy'n cael ei redeg ar ein rhan gan Cymorth i Ddioddefwyr Cymru, a pharhau â'r ymgyrch **Mae Casineb yn Brifo Cymru**, sy'n ceisio annog pobl i roi gwybod am ddigwyddiadau ac ymyrryd pan welant rywbeth yn digwydd a gwrthannog pobl rhag cyflawni troseddau. Bydd y cyllid hwn yn ein galluogi i ymgymryd ag amrywiol fentrau atal casineb, gan gynnwys monitro casineb ar-lein a naratifau anwir a chydgysylltu ymatebion, ymyriad llythrennedd yn y cyfryngau o ran casineb a chamwybodaeth, hyfforddiant ar fesurau diogelu rhag aflonyddu sy'n cyfyngu ar ryddid, cynlluniau peilot cyflawnwyr troseddau casineb a menter benodol i godi ymwybyddiaeth o gasineb i bobl anabl.

88. Rwyf hefyd wedi dyrannu cyllid i gefnogi prosiectau dadbolareiddio lleol, digwyddiadau cofio am hil-laddiad a digwyddiadau cymunedol anffurfiol ledled Cymru, i greu cysylltiadau cymdeithasol a hunaniaeth gyffredin.

89. Rydym yn gweithio tuag at ffyrdd gwell o fesur cydlyniant a fydd yn ein helpu i ddangos effaith ein gweithgarwch cyflawni helaeth. Bydd ein **Canolfan Cymorth Casineb** yn parhau i fonitro nifer y dioddefwyr sy'n cael cymorth a chyfraddau boddhad. Byddwn yn parhau i ymgorffori metrigau gwerthuso ym mhob un o'n

mentrau a gyllidir. Byddwn yn bwrw ymlaen â hyn wrth inni gyflawni Argymhelliad 1 adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gydlyniant Cymdeithasol. Fel rhan o'n trefniadau ar gyfer cyllid amlflwydd, byddwn yn meincnodi'r broses o gyflawni'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol.

90. Hefyd, fel rhan o'n hymateb i Argymhelliad 1, rydym wrthi'n sefydlu Grŵp Arbenigwyr ar Gydlyniant i ymdrin â'r awgrymiadau a wnaed yn yr adroddiad.

# 5. Cenedl Noddfa

## Mae £7m o refeniw wedi cael ei ddyrannu i'w gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru barhau i weithredu Cenedl Noddfa.

91. Bydd y **dyraniad o £7m** yn y gyllideb **Cymunedau Cydlynus** yn ei gwneud yn bosibl i Lywodraeth Cymru barhau i weithredu Cenedl Noddfa a chymryd y camau gweithredu, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (2024). Mae Cymru fel Cenedl Noddfa yn golygu cefnogi'r rhai sy'n ffoi rhag erledigaeth a rhyfel wrth iddynt gyrraedd yma i adeiladu eu bywydau o'r newydd. Byddaf yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer nifer o ymyriadau penodol yn ogystal â buddsoddiad drwy ymyriadau ehangach prif ffrwd i gefnogi'r broses o integreiddio ceiswyr noddfa, gan gynnwys pobl o Wcráin, ym mywyd Cymru a'u helpu i gyfrannu'n gadarnhaol at ein cenedl.

92. Rwy'n parhau â'r cyllid ar gyfer **Gwasanaeth Noddfa Cymru** tan 31 Mawrth 2027. Mae'r gwasanaeth yn rhoi cymorth ymarferol ac emosiynol i fynd drwy'r broses ceisio lloches, sicrhau llety, cael mynediad at addysg a dosbarthiadau Saesneg, a dod o hyd i gyflogaeth ar sail Cymru gyfan.

93. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid i wella cymorth i unigolion nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Bwriadwn fabwysiadu canllawiau cyson i awdurdodau lleol er mwyn sicrhau eglurder a thegwch o ran y ffordd y rhoddir cymorth, gan gynnwys cael prydau ysgol am ddim. Er mwyn ategu hyn bydd canllawiau ymarfer cynhwysfawr, wedi'u diweddaru i awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector a phartneriaid eraill, ynghyd â chymorth gan raglen hyfforddiant i hyrwyddo proses weithredu gyson ac effeithiol. Byddwn hefyd yn parhau â chyllid i roi mynediad at loches a chyngor cyfreithiol i'r rhai heb statws mewnfudo ond sydd â rhagolygon realistig o'i gael.

94. Byddaf yn parhau i ddyrannu cyllid i gefnogi ffoaduriaid newydd eu cydnabod i ddod o hyd i lety amgen a chofrestru i gael gwasanaethau allweddol yn ystod y cam symud ymlaen. Bydd y cyllid hefyd yn cynyddu adnoddau gwasanaethau cyngor cyfreithiol ar fudo i'r rhai sydd â'r angen mwyaf; yn rhoi cymorth o ran cyflogadwyedd ffoaduriaid; ac yn rhoi'r rhai â phrofiad bywyd wrth wraidd ein prosesau llunio polisïau a gwneud penderfyniadau.

95. Rwy'n ymrwymedig o hyd i fynd i'r afael â'r rhwystrau y mae ceiswyr noddfa yn eu hwynebu o ran trafnidiaeth ac adnoddau digidol wrth geisio cael gafael ar wasanaethau a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Rydym wrthi'n adolygu'r opsiynau i ymdrin â'r rhwystrau hyn a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar y ffordd orau ymlaen.

# 6. Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

**Mae'n dda gennyf nodi'r cynnydd a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26; mae gennym bellach lif cadarn o brosiectau cymeradwy i sicrhau canlyniadau dros yr ychydig flynyddoedd ariannol nesaf.**

96. Rwyf wedi croesawu'r cynnydd yn nifer y ceisiadau am gyllid grant Cyfalaf Safleoedd yn y flwyddyn ariannol hon. Hyd yma, mae 14 o geisiadau, gwerth cyfanswm o £2.4m, wedi cael eu cymeradwyo. Rhagwelwn y bydd rhagor o geisiadau yn y flwyddyn ariannol hon.

97. Mae dau o'r ceisiadau yn ymwneud â lleiniau newydd a fydd yn creu pum llain newydd ar safleoedd dau awdurdod lleol. Mae'r 12 cais arall yn cynnwys cyllid ar gyfer gosod arwyneb newydd ar lain, ardal chwarae newydd, gatiau gwrth-dân newydd, mesurau gostegu traffig ac adnewyddu adeiladau cymunedol.

98. Rydym yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i annog cynigion sy'n ymdrin yn uniongyrchol â'r angen am leiniau newydd, ac rydym yn adolygu ac yn diweddaru'r canllawiau ar grantiau bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod y cyllid hwn mor hygyrch â phosibl i awdurdodau lleol.

99. Mae 15 o awdurdodau lleol wedi ein hysbysu eu bod yn bwriadu cyflwyno ceisiadau i ddatblygu cyfanswm o 236 o leiniau newydd yn 2026-27 ac yn y dyfodol. Mae un o'r cynigion hyn yn cynnwys cais i ddatblygu safle tramwy ar gyfer chwe llain newydd. Rwyf wedi parhau â'r gyllideb o **£3.4m** ar gyfer Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn cefnogi'r cynlluniau hyn.

100. Rydym yn gwneud cynnydd cyson o ran y camau gweithredu i fynd i'r afael â'r anghydraddoldeb a'r gwahaniaethu a wynebir gan Sipsiwn, Teithwyr a Roma a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, fel y'i hamlinellir isod.

| **Cam Gweithredu** | **Cynnydd** |
|---|---|
| Gweithio gydag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, awdurdodau lleol ac eraill i'w gwneud yn bosibl i ddarparu safleoedd tramwy priodol yn well. Bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud yn seiliedig ar dystiolaeth ynglŷn â ble mae angen safle tramwy. | Rydym wedi contractio sefydliad yn y trydydd sector i wneud ymchwil genedlaethol i nodi'r galw am safleoedd tramwy ledled Cymru a'u lleoliad. Mae'r ymchwil hon yn ystyried ble yng Nghymru y dylai fod mannau cyfreithlon a diogel i deuluoedd aros wrth deithio drwy Gymru.<br><br>Disgwylir i'r adroddiad ar yr ymchwil wneud argymhellion seiliedig ar dystiolaeth o ble y byddai darpariaeth dramwy yn fwyaf addas i bobl sy'n teithio yng Nghymru a thrwy Gymru. Bydd yn cynnwys ac yn defnyddio profiad bywyd aelodau o'r gymuned er mwyn helpu i lunio argymhellion terfynol. |

| | |
|---|---|
| | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl cael argymhellion erbyn diwedd y flwyddyn a bydd yn eu rhannu ag awdurdodau lleol wedi hynny. |
| Treialu ffyrdd ychwanegol neu newydd o gyllido darpariaeth barhaol. | Fel rhan o'r cynllun grant cyfalaf safleoedd Sipsiwn a Theithwyr[1], yn 2024 gwnaethom ychwanegu'r opsiwn i ddefnyddio'r cyllid grant cyfalaf i awdurdodau lleol i brynu tir i'w droi'n safle sipsiwn a theithwyr awdurdod lleol.<br><br>Gwyddom fod angen am lety, a byddwn yn parhau i ystyried opsiynau ynglŷn â sut y gallwn gyllido cartrefi parhaol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| Cyllido astudiaeth i ystyried opsiynau ar gyfer cynllun rhentu cartref symudol drwy dai cymdeithasol. | Mae swyddogion wedi gwneud gwaith cwmpasu cychwynnol i lywio gofynion astudiaeth o opsiynau ar gyfer cynllun rhentu cartref symudol. |
| Yn dibynnu ar ganlyniad yr astudiaeth o gynllun rhentu cartref symudol, sefydlu cynllun peilot. | Yn aros am ganlyniad y cam gweithredu uchod. |
| Byddwn yn caffael fframwaith i gwmni hyfforddiant allanol ddatblygu a chyflwyno cwrs hyfforddiant i uwchsgilio pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar ffyrdd nomadaidd o fyw Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Caiff hwn ei ddatblygu ar y cyd ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Mae Llywodraeth Cymru wedi caffael gwasanaethau hyfforddiant i'w darparu gan gwmni hyfforddiant allanol drwy gystadleuaeth caffael cystadleuol a gwblhawyd ym mis Mehefin 2025.<br><br>Ar hyn o bryd, mae rhaglen hyfforddiant newydd wrthi'n cael ei datblygu, a fydd yn gwella dealltwriaeth o ffyrdd o fyw a hunaniaethau diwylliannol Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Caiff ei gyflwyno i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru a bydd yn rhedeg dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2026.<br><br>Mae'r rhaglen wrthi'n cael ei chydlunio â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. |
| Comisiynu rhaglen beilot tair blynedd i roi cyngor i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat. | Mae cynllun peilot cynllunio preifat, sy'n rhedeg o fis Medi 2025 i fis Mawrth 2027, yn cael ei gyflwyno i roi cyngor cynllunio i deuluoedd sy'n ceisio datblygu eu safleoedd eu hunain.<br><br>Mae'r cynllun peilot hwn yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, sy'n helpu teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gael llety diogel a diwylliannol briodol. |

[1] **Cynllun grant cyfalaf safleoedd Sipsiwn a Theithwyr [HTML] | LLYW.CYMRU**

| | |
|---|---|
| Adolygu'r canllawiau ar safleoedd cyfalaf Sipsiwn a Theithwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r cynllun peilot i roi cyllid i brynu tir, adborth gan y cymunedau a phenderfyniad ynglŷn â chyllid ar gyfer safleoedd preifat. | Mae'r canllawiau ar Gyllid Cyfalaf Safleoedd wedi cael eu hadolygu ar gyfer 2025-26 er mwyn helpu awdurdodau lleol i greu safleoedd/lleiniau newydd ac adnewyddu safleoedd sy'n bodoli eisoes.<br><br>Ychwanegwyd caffael tir at y Canllawiau ar Safleoedd Cyfalaf yn 2024.<br><br>Rydym yn gweithio ar opsiynau gwahanol ar gyfer cyllid mewn perthynas â safleoedd preifat, ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. |
| Ailddrafftio a symleiddio'r Canllawiau ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys aelodau o'r gymuned er mwyn adlewyrchu eu hanghenion. | Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu ac wedi ailddrafftio pob un o'r pedair dogfen ganllaw ar Sipsiwn a Theithwyr ac wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau arfaethedig dros haf 2025.<br><br>Mae'r dogfennau canllaw yn cynnwys:<br><br>• Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<br>• Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru<br>• Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr<br>• Rheoli gwersylloedd diawdurdod<br><br>Yn ychwanegol at yr ymgynghoriad cyhoeddus, ymgysylltwyd yn uniongyrchol â mwy na 200 o aelodau o'r gymuned ynglŷn â'r newidiadau er mwyn ceisio eu barn ar y newidiadau arfaethedig. |
| Bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ystyried defnyddio ei phwerau i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cydymffurfio â Deddf Tai (Cymru) 2014. | Mae cynnydd o ran sut mae awdurdodau lleol yn diwallu anghenion llety a nodwyd yn yr Asesiadau o Lety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei fonitro. Bydd ceisiadau am grant cyfalaf sy'n ymdrin â'r angen am leiniau newydd yn cael blaenoriaeth. |
| Cael cyfarfodydd rheolaidd â Sipsiwn, Roma a Theithwyr a rhanddeiliaid er mwyn llywio polisïau Llywodraeth Cymru. Sicrhau bod pobl yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys yn y cyfarfodydd. | Mae'r cyfarfod â rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi cael ei ailddechrau. Mae tri chyfarfod wedi cael eu cynnal yn y canolbarth, y gorllewin a'r de-ddwyrain.<br><br>Mae'r grŵp hwn yn cynnwys aelodau o'r gymuned. Dyfarnwyd y contract i 'There and Back Again' i gydgysylltu gwahoddiadau ac ad-dalu aelodau o'r gymuned am eu hamser a'u cyfraniadau. Mae gwahoddiadau yn cael eu hestyn i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid yn y trydydd sector. |

| | |
|---|---|
| Darparu gwasanaethau cyngor ac eiriolaeth i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr. | Ym mis Medi 2024, dyfarnwyd contract newydd i Travelling Ahead yn TGP Cymru i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth a chyngor i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.<br><br>Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu aelodau unigol o'r gymuned i ddeall eu hawliau o ran eu hanghenion tai a bydd yn rhedeg tan fis Awst 2027. |

# 7. Cyfiawnder Troseddol

101. Ni dderbyniaf y ffordd y portreadwyd tystiolaeth yr Arglwydd Timpson. Mae trafodaethau ynglŷn â datganoli cyfiawnder ieuenctid a'r gwasanaeth prawf yn mynd rhagddynt yn dda. Fel y'i nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Dirprwy Brif Weinidog ar 7 Awst, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu opsiynau i ddatganoli cyfiawnder ieuenctid ac ystyried dulliau o gydgomisiynu gwasanaethau prawf.

102. Mae swyddogion yn y ddwy lywodraeth yn ystyried opsiynau lle y gellid ailalinio cyfrifoldebau yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae hyn yn cynnwys trefniadau goruchwyliaeth strategol, partneriaeth a llywodraethu a chyllido gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fel mannau cychwyn. Rydym yn ystyried ffurfioli'r trefniadau llywodraethu a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â'i gilydd.

103. O ran datganoli gwasanaethau prawf, rydym yn trafod y potensial i Lywodraeth Cymru weithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i fabwysiadu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar wasanaethau prawf, yn debyg i'r model sydd ar waith ym Manceinion Fwyaf. Bydd dyraniad ychwanegol o **£0.1m** yn adeiladu ar fuddsoddiad yn 2025-26 i dreialu dull gweithredu yng Nghymru sy'n defnyddio arian cyfatebol dyngarol i brofi a yw ymyriad hyblyg ac ymatebol, heb amodau, a ddarperir gan y trydydd sector yn cael effaith gadarnhaol o ran lleihau digartrefedd.

104. Nid yw'r meysydd trafod hyn yn adlewyrchu pen draw ein huchelgeisiau; maent yn adlewyrchu mannau cychwyn a disgwyliwn y bydd rhagor o drafodaethau yn dilyn. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio datganoli'r system gyfiawnder yn llawn fel polisi, a dyma'r camau cyntaf ymhlith llawer y byddwn yn eu cymryd.

105. Mae tybiaethau cyllidebol yn seiliedig ar weithgareddau i ddatganoli gwasanaethau cyfiawnder, a chyflawni'r swyddogaethau cyfiawnder presennol. Mae Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder o dan MEG Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn cyllido nid yn unig gwaith ar ddatganoli cyfiawnder, ond hefyd ddiwygiadau arfaethedig i dribiwnlysoedd, gweithgarwch i reoli'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau sydd wedi'u datganoli a heb eu datganoli ym maes cyfiawnder, a chefnogi Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus datganoledig ehangach ar faterion cyfiawnder.

106. Dyfarnwyd cyllid ychwanegol i'r Llinell Wariant yn y Gyllideb Trawsnewid Cyfiawnder yn 2025-26 er mwyn (ymhlith pethau eraill):

- Recriwtio staff ychwanegol sy'n meddu ar wybodaeth arbenigol am wasanaethau cyfiawnder a/neu weithgarwch sy'n gysylltiedig â diwygio tribiwnlysoedd
- Datblygu sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau prawf, a diwygio tribiwnlysoedd

- Paratoi ar gyfer mabwysiadu swyddogaethau newydd gan Lywodraeth Cymru
- Ymgysylltu ag ymarferwyr sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid, gwasanaethau prawf, a thribiwnlysoedd er mwyn sicrhau newid

107. Bydd y dyraniadau o adnoddau yn parhau i gael eu hadolygu wrth i opsiynau o ran datganoli a pholisi diwygio tribiwnlysoedd ddatblygu. Bydd lefel yr adnoddau sydd ei hangen i ddarparu gwasanaeth o safon, o ran costau staff a chostau cyflawni, yn rhan o'n dadansoddiad polisi a'n cyd-drafodaethau â Llywodraeth y DU ar unrhyw drosglwyddiadau cyllidebol yn y dyfodol.

108. Mae'r tabl isod yn nodi'r cyllid sydd wedi cael ei gyllidebu a'i wario ar weithgareddau sy'n ymwneud â chyfiawnder a datganoli, fel rhan o raglen wariant ehangach ar ddiwygio cyfansoddiadol. Er bod y cyllid hwn wedi cyfrannu at weithgareddau, ni ellir ei briodoli'n llawn i waith ar ddatganoli.

| | | 2021/22 | | 2022/23 | | 2023/24 | | 2024/25 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Gwariant cronnol | Cyllideb flynyddol | Gwariant cronnol | Cyllideb flynyddol | Gwariant cronnol | Cyllideb flynyddol | Gwariant cronnol | Cyllideb flynyddol |
| Rhaglen a gyllidwyd | | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ | £ |
| BEL 6663 | Diwygio Cyfansoddiadol | 260,124 | 400,000 | 923,939 | 1,100,000 | 1,037,214 | 1,048,000 | 813,334 | 2,014,000 |
| BEL 6669 | Trawsnewid Cyfiawnder | 330,377 | 490,000 | 357,672 | 490,000 | 512,936 | 480,000 | 388,323 | 488,000 |
| Canlyniad Cyffredinol | | 590,501 | 890,000 | 1,281,611 | 1,590,000 | 1,550,150 | 1,528,000 | 1,201,658 | 2,502,000 |

## Therapi Lleferydd ac Iaith

109. Ym mis Ionawr, fel rhan o Ddadl ehangach ar Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn y Senedd, soniais am anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu yn y system cyfiawnder troseddol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol mai Byrddau Iechyd Lleol sy'n gyfrifol am benderfynu ar anghenion iechyd y boblogaeth ac am benderfynu ar y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu poblogaeth.

110. Mae pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru yn darparu therapi lleferydd ac iaith fel triniaeth iechyd lle mae angen clinigol. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i bob plentyn yr asesir bod angen therapi lleferydd ac iaith arno yng Nghymru, gan gynnwys plant sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder, yn amodol ar broses atgyfeirio. Mae'n bosibl na fydd angen therapi arbenigol ar bob plentyn sydd ag angen lleferydd, iaith a chyfathrebu neu na fydd yn fuddiol i'r plentyn. Mae nifer o ymyriadau eraill a all helpu i ymdrin ag angen lleferydd, iaith a chyfathrebu heb fod angen therapydd arbenigol.

111. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol hefyd mai timau'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid fyddai'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau pellach mewn perthynas ag anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan eu bwrdd iechyd lleol, er mwyn cyflawni eu rôl statudol a gedwir yn ôl.

112. Gall awdurdodau lleol sydd o'r farn bod angen darpariaeth ychwanegol gyflogi eu therapyddion lleferydd ac iaith eu hunain yn uniongyrchol neu gomisiynu a chyllido darpariaeth drwy gyflogwr arall, megis y GIG neu'r sector preifat. Mae nifer o ffrydiau cyllido ar gael iddynt, y gellid eu defnyddio i gefnogi hyn, a nododd ein gwaith gydag awdurdodau lleol cyn yr uwchgynhadledd y llynedd sawl enghraifft lle mae hyn eisoes yn gweithio'n dda. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau lleol sy'n defnyddio cynllun cyllido Turnaround Llywodraeth y DU, a adnewyddwyd ar gyfer 2025-26, i ariannu darpariaeth.

## Cyfiawnder i Fenywod

113. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfiawnder troseddol yn un sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ymdrin ag achosion sylfaenol troseddu ac yn cefnogi pobl sy'n wynebu risg o droseddu i fyw bywydau boddhaus, didrosedd. Gall y dull gweithredu hwn atal troseddau rhag digwydd yn y lle cyntaf.

114. Mae ein dull ystyriol yn cydnabod anghenion menywod yn y system gyfiawnder a'r hyn sy'n eu gwneud yn agored i niwed, a hynny'n rhannol am fod llawer o fenywod yn y system gyfiawnder yn ddioddefwyr eu hunain ac y dylent gael eu hystyried felly. Drwy ganolbwyntio ar ymyriadau cynnar, gallwn gefnogi menywod sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol neu sy'n wynebu'r risg o wneud hynny, drwy fabwysiadu dull partneriaeth system gyfan o ddatblygu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion cymhleth menywod sy'n agored i niwed o bob cefndir yn well, ac sy'n ystyried eu profiadau.

115. Yn benodol, rydym o'r farn bod yn rhaid i ddedfrydau digarchar fod ar gael i fenywod o Gymru, er mwyn cynnal cysylltiadau teuluol. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu Bwrdd Cyfiawnder Menywod, sydd â'r nod o sicrhau bod llai o fenywod yn mynd i'r carchar a bod mwy o fenywod yn cael eu cefnogi yn y gymuned – gan roi cyfle i ryngwynebu a chydweithio er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd a phrofiadau. Cynrychiolir Cymru ar y Bwrdd sy'n datblygu strategaeth genedlaethol ar Fenywod yn y System Gyfiawnder, gan gynnwys Canolfannau Preswyl i Fenywod yng Nghymru a Lloegr.

116. Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ar faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder i fenywod, gan gynnwys y Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ac rydym yn parhau i ymgysylltu'n agos ynghylch agor y Ganolfan Breswyl i Fenywod yn Abertawe.

117. Fodd bynnag, gan mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am y Ganolfan, gan gynnwys amserlenni, ymrwymiadau cyllidol a threfniadau comisiynu, nid yw'r Ganolfan wedi agor eto.

118. Rwyf wedi codi hyn yn rheolaidd gyda'm cyd-weinidogion yn Llywodraeth y DU ac wedi cael sicrwydd bod Llywodraeth y DU yn ymrwymedig i gynnig dewisiadau amgen ystyrlon yn lle'r carchar i fenywod, gan gynnwys drwy ganolfannau preswyl. Gweithredir ar hyn drwy'r Bwrdd Cyfiawnder i Fenywod.

119. Mae'r Bil Dedfrydu a osodwyd yn ddiweddar hefyd yn nodi uchelgeisiau i ddargyfeirio mwy o oedolion oddi wrth ddedfrydau uniongyrchol byr yn y carchar i orchmynion yn y gymuned, er mwyn gallu ymdrin ag anghenion unigolion yn y gymuned, gyda llai o darfu ar eu bywydau. Disgwylir i hyn fod yn arbennig o fuddiol i fenywod y mae cyfran fwy o'r dedfrydau a roddir iddynt bob blwyddyn yn rhai byr.

120. Byddaf yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â Gweinidogion Cyfiawnder Llywodraeth y DU a phartneriaid allweddol sy'n arwain y rhaglen waith bwysig hon.

# 8. Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

**Mae'n bleser gennyf ddyrannu £0.7m o refeniw ychwanegol i'r gyllideb Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn 2026-27 a fydd yn gwneud cyllideb o £10m. Bydd hyn yn helpu i wella'r cymorth i ddioddefwyr trais rhywiol a domestig difrifol a chynyddu lefelau'r cyllid sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau ymyrryd yn gynnar ac atal.**

121. Bob blwyddyn, rwy'n cynnig cyllid sylweddol i bob un o'r chwe rhanbarth yng Nghymru drwy'r Grant Craidd a gynigir. Mae pob rhanbarth yn dyrannu'r arian hwn yn seiliedig ar ei anghenion a'i amcanion rhanbarthol yn ei strategaeth leol (yn unol â gofynion Deddf VAWDASV 2015) ac amcanion Strategaeth VAWDASV Genedlaethol (2022-2026) Llywodraeth Cymru. Yn 2026-27, cynigir y bydd y cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio gan ranbarthau i ariannu nifer o weithgareddau, gan gynnwys gwasanaethau i ddioddefwyr, darpariaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, ymyriadau â chyflawnwyr, gweithwyr cymorth, hyfforddiant ac ymgyrchoedd cyfathrebu. Rwyf hefyd yn cefnogi prosiectau arloesi gan y rhanbarthau drwy gyllid ychwanegol, a fydd yn rhoi cyfleoedd i ranbarthau fod yn greadigol ac yn arloesol a defnyddio cyllid i fabwysiadu dull ataliol o ymdrin â thrais yn erbyn menywod a merched. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer y cyllid arloesi ar gyfer 2026-27 wrthi'n cael eu datblygu o hyd.

122. Byddaf yn parhau i fuddsoddi mewn ymgyrchoedd cyfathrebu. Mae llinell gymorth Byw Heb Ofn yn cefnogi dioddefwyr trais rhywiol neu drais domestig ledled Cymru. Byddwn yn parhau i gyflwyno'r ymgyrchoedd cyfathrebu ‘IAWN’, sydd wedi ennill sawl gwobr, sy'n annog dynion a bechgyn ledled Cymru i fyfyrio ar eu hymddygiadau eu hunain, a byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweithgarwch ymyrryd yn gynnar ac atal fel blaenoriaeth allweddol. Mae hyn yn annog dynion a bechgyn ledled Cymru ymhellach i ddysgu am drais ar sail rhywedd, cydberthnasau cadarnhaol ac iach, a'i bod yn iawn siarad am gysyniadau o wrywdod, ei ddelfrydau a lle y gallai arwain at stereoteipiau rhywedd a mynd yn niweidiol, nid yn unig i'r menywod a'r merched yn eu bywydau ond y ffordd y gall effeithio arnyn nhw a'u llesiant eu hunain. Bydd yr ymgyrch IAWN yn adeiladu ar y camau blaenorol: bydd cam 4 yn edrych ar y byd ar-lein a chamdriniaeth a hwylusir gan dechnoleg, er enghraifft – Stelcian ac Aflonyddu Ar-lein, Rhannu Delweddau Personol ac olrhain digidol.

123. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda'r holl sefydliadau yn y trydydd sector a ariennir gennym i adolygu gwariant blynyddol er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau yn cael eu colli, ac maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r rhanbarthau i sicrhau bod cyllid yn ymdrin ag anghenion lleol. Bydd ein cyllideb ar gyfer 2026-27 yn rhoi cymorth uniongyrchol i gyflawni'r chwe amcan a nodwyd yn Strategaeth VAWDASV Genedlaethol (2022-2026).

124. Mae cyllideb cyfalaf o **£3.1m** ar gyfer VAWDASV sy'n darparu grantiau bach o hyd at £50k, a bydd grantiau mwy o hyd at £350k yn parhau i alluogi sefydliadau yn y trydydd sector, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus eraill i gael gafael ar gyllid i gefnogi gwasanaethau VAWDASV ledled Cymru. Mae'r cynllun hwn yn ariannu prynu eiddo, uwchraddio lleoedd i ffoaduriaid, mentrau diogelwch dioddefwyr a gwella hygyrchedd. Y flwyddyn ddiwethaf, ariannodd dros 20 o brosiectau ledled Cymru. Rydym wrthi'n cynnal digwyddiad ymgynnig byw ar gyfer cyllideb y flwyddyn nesaf a disgwyliwn y bydd mwy nag 20 o geisiadau ar gyfer 2026-27.

## Argymhellion y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol

125. Ym mis Ionawr 2025, rhoddais ddiweddariad i'r pwyllgor ar y cynnydd roedd Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o ran pob un o'r argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor ar ddull o atal trais ar sail rhywedd sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd. Bydd diweddariadau pellach yn cael eu cyfuno yn yr adroddiad blynyddol statudol ar VAWDASV a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2025.

126. Wrth ymateb i'r heriau a wynebir gan fenywod sy'n fudwyr, ers dwy flynedd mae Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu at Gynllun presennol y Swyddfa Gartref i roi Cymorth i Fudwyr sy'n Ddioddefwyr. Gan gydnabod bod cyllid y cynllun hwn ei hun bellach wedi cael ei gynyddu'n sylweddol, mae fy swyddogion wedi sicrhau bod ein cyllideb yn canolbwyntio ar ystyried ffyrdd gwell o gefnogi unigolion sydd wedi cael eu cam-drin ac nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu helpu. O ganlyniad, yn ystod 2024-25, darperais gyllid ychwanegol i BAWSO, sef prif ddarparwr cymorth VAWDASV arbenigol i fenywod Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru, gan gynnwys menywod sy'n fudwyr, er mwyn recriwtio dau weithiwr cymorth newydd i weithio'n benodol gyda menywod yng Nghymru nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus ac sydd wedi wynebu cam-drin domestig.

127. Rwyf wedi dyrannu cyllid dros Gymru gyfan i uwchsgilio swyddogion tai, gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr rhanbarthol er mwyn sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant priodol i ddeall hawliau menywod sy'n fudwyr, gan roi gwell mynediad at wybodaeth a chyfeirio at wasanaethau, mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Bydd hyn yn sicrhau nad yw'r menywod hynny na'u teuluoedd yn aros mewn lloches am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol a'u bod yn cael cymorth priodol pan fyddant ar eu mwyaf bregus. Mae cyllid ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r trydydd sector er mwyn helpu'r menywod hynny nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus i gael cyfarpar brys, er enghraifft cotiau, cyfarpar baban ac ati er mwyn sicrhau bod eu hanghenion sylfaenol yn cael eu diwallu.

128. Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer 2022-2026 a'n dull cydweithredol presennol o dan y Glasbrint yn amlinellu sut rydym yn mynd i'r afael â VAWDASV drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd ac yn cyflawni Amcan 4 y strategaeth sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethu ymyrryd yn gynnar ac atal. Er bod cymorth i oroeswyr a newidiadau i systemau i wella canlyniadau i oroeswyr yn dal i fod yn rhan o'r pecyn cymorth, hoffem newid y ffocws o symptomau i achosion drwy ddull gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd. Nid yw hyn yn golygu na ddylai

goroeswyr ddisgwyl llai oddi wrth ein dull gweithredu. Mae hyn yn ymwneud ag ehangu effaith yr hyn a wnawn er mwyn sicrhau bod goroeswyr fel unigolion yn cael cymorth cyfannol a bod effaith gymdeithasol ehangach sy'n ei gwneud yn llai tebygol y byddant yn cael profiad o VAWDASV yn y lle cyntaf.

129. Bydd ein dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd yn amlygu rhan eang o'r boblogaeth i fesurau atal ac yn lleihau ac yn atal trais ar lefel y boblogaeth. Yn y cyd-destun hwn, term ambarél yw atal, sy'n golygu bod VAWDASV a'r niwed y mae'n ei achosi yn cael eu hatal ym mhob maes.

130. Mae enghreifftiau o ble mae ein cyllid wedi cael ei dargedu yn cynnwys y canlynol:

- Mae Atal Cychwynnol wedi'i dargedu at leihau nifer yr achosion newydd o drais drwy ymyrryd cyn bod trais yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys herio agweddau, ymddygiadau, ac arferion sy'n cyfiawnhau, yn esgusodi, neu'n goddef trais. Mae ein hymgyrch lwyddiannus 'Iawn' wedi gweithio'n agos gyda dynion a bechgyn ledled Cymru i ganolbwyntio ar sut y gallant chwarae rhan bwysig i leihau trais yn erbyn menywod a merched, sut y gallant herio agweddau niweidiol ymhlith eu cymheiriaid a sut y gallant geisio cyngor os ydynt yn pryderu am eu hymddygiadau eu hunain.

- Ystyrir Atal Eilaidd yn ymyriad cynnar i grwpiau sydd eisoes yn dangos arwyddion o gyflawni VAWDASV o bosibl. Rwyf wedi rhoi cyllid i elusen Llwybrau Newydd er mwyn cynnig ymyriad i bobl ifanc sydd wedi cael eu hatgyfeirio at ei gwasanaethau fel dioddefwyr ond sydd wedi dangos rhywfaint o ymddygiad rhywiol problemus neu niweidiol. Rwyf hefyd wedi rhoi cymorth i Cymru Ddiogelach gynnig ymyriad i bobl ifanc sy'n wynebu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt, a phobl eraill sy'n agored i niwed a all gael cymorth a chyngor i'w hatal rhag dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol. Yn y sector iechyd, mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda phob rhan o'r sector iechyd, er enghraifft mewn perthynas â menter gymdeithasol IRISi sydd wedi ymrwymo i wella ymateb gofal iechyd i VAWDASV. Mae rhaglen IRIS, er enghraifft, yn cynnig rhaglen hyfforddiant, cymorth ac atgyfeirio arbenigol i feddygon teulu ym maes trais a cham-drin domestig. Mae'n gweithredu mewn meddygfeydd mewn rhai rhannau o Gymru ond nid drwy Gymru gyfan. Mae cymorth i oroeswyr ymosodiadau rhywiol hefyd ar gael drwy Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Mae'r rhain yn cynnig cymorth meddygol ac ymarferol cyfrinachol i bobl sydd wedi cael eu treisio neu sydd wedi dioddef ymosodiad rhywiol yn ddiweddar drwy ddarpariaeth acíwt, gan gynnwys nifer o agweddau fforensig y mae'r heddlu yn gyfrifol amdanynt (e.e. Archwiliadau Meddygol Fforensig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol), ynghyd â chynnig cymorth cofleidiol, gan gynnwys anghenion meddygol, sgrinio iechyd rhywiol a mynediad at wasanaethau cwnsela drwy Ganolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol/gwasanaethau iechyd meddwl.

- Mae Atal Trydyddol yn golygu ceisio atal y rhai sydd eisoes wedi gwneud niwed rhag gwneud hynny eto. Drwy ein cyllid Grant Craidd rhanbarthol, mae'r rhanbarthau wedi llwyddo i gynnig ymyriadau'n uniongyrchol i'r rhai sy'n cyflawni VAWDASV. Rwyf hefyd wedi llwyddo i ddarparu cyllid i brynu'r llyfrau 'She is Not Your Rehab' ar gyfer pob carcharor yn un o'r pedair prif ystad carchar yng

Nghymru er mwyn rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar eu hymddygiad a arweiniodd at eu carcharu a'u paratoi'n well ar gyfer eu rhyddhau a dychwelyd at eu cydberthnasau presennol neu gydberthnasau newydd.

# 9. Gwasanaethau Cynghori

**Fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, bu'n bleser gennyf wneud dyraniadau refeniw ychwanegol o £5.9m i gyllideb Gwasanaethau Cynghori er mwyn parhau i gefnogi'r Gronfa Gynghori Sengl a chefnogi gwaith ar symleiddio budd-daliadau Cymru.**

131. Fel rhan o gynlluniau Cyllideb Ddrafft 2026-27, rwyf wedi llwyddo i ddyrannu cyfanswm cyllideb o **£16m** i **Linell Wariant yn y Gyllideb Gwasanaethau Cynghori**. Mae hyn yn golygu cynnydd o £5.9m o un flwyddyn i'r llall ac mae'n cynnwys y dyraniadau canlynol:

- Dyraniad penodol wedi'i glustnodi o **£5.2m** gan Lywodraeth y DU o'r Ardoll Dyled (dyraniad 2025-26 - £4.3m);
- Cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant sy'n hafal i **£0.2m**;
- Bydd **£0.5m** o refeniw ychwanegol i barhau i gefnogi'r gwaith ar symleiddio Budd-daliadau Cymru hefyd yn ei gwneud yn haws i bobl hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael.

## Y Gronfa Gynghori Sengl

132. Drwy'r Gronfa Gynghori Sengl, rydym wedi rhoi fframwaith o wasanaethau gwybodaeth a chyngor ar les cymdeithasol ar waith ledled Cymru ac mae'r rhain yn hygyrch i bobl o'n cymunedau mwyaf difreintiedig a'n cymunedau sydd wedi'u hymyleiddio fwyaf. Ym mis Mehefin 2024, cytunodd cyn-Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol i neilltuo **£12m** ar gyfer gwasanaethau a ddarperir drwy'r Gronfa Gynghori Sengl ym mhob blwyddyn ariannol o 1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2028.

133. Caiff y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026-27 ei ddyrannu fel a ganlyn:

- Gwasanaeth gwybodaeth a chyngor (o bell) i Gymru gyfan – **£3m**
- Chwe gwasanaeth gwybodaeth a chyngor rhanbarthol – **£8.4m**
- Chwe gwasanaeth ar wahân i ddarparu gwybodaeth a chyngor i grwpiau o'r boblogaeth heb gynrychiolaeth ddigonol – **£0.6m**

## Cynllun Preswylio’n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

134. Pan benderfynodd y Deyrnas Unedig (y DU) adael yr Undeb Ewropeaidd (yr UE), lluniwyd cytundeb ffurfiol i ddiogelu dinasyddion y byddai'r penderfyniad yn effeithio arnynt. O ganlyniad i Gytundeb y Ddeddf Ymadael, mae cyfrifoldeb statudol ar gyrff cyhoeddus yn y DU i ddiogelu hawliau dinasyddion yr UE a'r AEE-EFTA a'u teuluoedd.

135. Mae'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (y Cynllun Preswylio) yn galluogi dinasyddion yr UE, dinasyddion eraill yr AEE a dinasyddion y Swistir a oedd yn preswylio yn y DU erbyn diwedd y cyfnod pontio ar 31 Rhagfyr 2020, ac aelodau o'r teulu, i gael y statws sydd ei angen arnynt i fyw a gweithio yn y DU ar ôl 30 Mehefin 2021.

136. Agorodd y cynllun i'r cyhoedd ar 30 Mawrth 2019. Y dyddiad cau i'r rhan fwyaf o bobl wneud cais o dan y Cynllun Preswylio oedd 30 Mehefin 2021, ond gall ceiswyr cymwys wneud cais o hyd os oes ganddynt ddyddiad cau diweddarach i wneud hynny neu os oes ganddynt 'seiliau rhesymol' dros yr oedi cyn iddynt wneud cais.

137. Mae dros dair blynedd wedi mynd heibio ers y dyddiad cau o 30 Mehefin 2021, ac mae Llywodraeth y DU yn parhau i wneud newidiadau i'r cynllun, sy'n golygu bod yr angen am wasanaethau cymorth a chyngor yn parhau. Hefyd, mae galw o hyd am gymorth i wneud ceisiadau hwyr, uwchraddio statws lle nad yw awtomeiddio'n bosibl, cefnogi aelodau o'r teulu sy'n ymuno ac arfer hawliau.

138. **Dyraniad Cyllideb 2024-25:** Dyfarnwyd £140,000 i Settled barhau i ddarparu gwasanaethau cyngor ar y Cynllun Preswylio. Mae'r grant a roddir gan Lywodraeth Cymru yn helpu Settled i roi gwybodaeth, cyngor a chymorth i ddinasyddion yr UE ynglŷn â cheisiadau o dan y Cynllun Preswylio a hefyd eu helpu i arfer hawliau a chael gwasanaethau y mae gan unigolion â statws o dan Gytundeb y Ddeddf Ymadael yr hawl i'w cael.

139. **Dyraniad Cyllideb 2025-26:** £140,000 er mwyn i wasanaethau Settled barhau fel y'i hamlinellir uchod. Mae £22,500 hefyd wedi cael ei ddyrannu yn y gyllideb i ariannu TGP Cymru i wneud gwaith allgymorth o dan y Cynllun Preswylio sydd wedi'i dargedu at y gymuned Roma yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a cheisiadau gan Fforwm Hawliau Dinasyddion yr UE. Mae'r Tîm Mudo a Gynlluniwyd wrthi'n ystyried cwblhau cais gwyro i hwyluso'r broses o drosglwyddo cyllid drwy gontract presennol.

# 10.Y Trydydd Sector

**Bydd £0.4m o refeniw ychwanegol a £1.5m o Gyfalaf Trafodiadau Ariannol yn cael eu darparu i gefnogi gweithgarwch yn y trydydd sector ledled Cymru, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r rôl y mae sefydliadau a gwirfoddolwyr yn y trydydd sector yn ei chwarae i helpu ein cymunedau i ffynnu a gwella llesiant Cymru.**

140. Drwy'r Gyllideb hon byddaf yn parhau i gefnogi ein partneriaeth gref â sefydliadau gwirfoddol ar gyfer nifer o'n cyfrifoldebau ac yn parhau â'n buddsoddiad yn y seilwaith sydd ei angen i gefnogi'r sector. Mae Cefnogi Trydydd Sector Cymru – partneriaeth rhwng Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a'r 19 o gynghorau gwirfoddol sirol ledled Cymru – yn rhoi cymorth a chyngor i'r miloedd lawer o sefydliadau yn y trydydd sector yng Nghymru. Mae'n rhoi cymorth o dan bedwar piler cyllid cynaliadwy, gwirfoddoli, llywodraethu da ac ymgysylltu a dylanwadu. Mae hyn yn cynnwys cymorth i sefydliadau roi mesurau diogelu priodol ar waith i gadw plant ac oedolion sy'n agored i niwed yn ddiogel; rhaglenni grant Gwirfoddoli Cymru; llwyfannau digidol Gwirfoddoli Cymru, Cyllido Cymru a Hwb Gwybodaeth. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi'r rhaglen Newid i ddatblygu sgiliau a gallu digidol yn y sector, a'r rhaglen credydau amser genedlaethol. Mae'r Gyllideb hefyd yn gwneud cyfraniad bach i gostau craidd Sefydliad Cymunedol Cymru.

141. Yn benodol, rwyf wedi rhoi cynnydd o £0.4m o refeniw i gyllideb Cymorth i'r Sector Gwirfoddol, sef cyfuniad o gynnydd o 2% oherwydd chwyddiant a gofynion refeniw ychwanegol o £0.2m sy'n gysylltiedig â'r Cyfalaf Trafodiadau Ariannol ychwanegol o £1.5m ar Linell Wariant yn y Gyllideb Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol a gaiff ei ddefnyddio i roi benthyciad pellach i CGGC ar gyfer y Gronfa Benthyciadau Asedau Cymunedol.

142. Yn wir, yn y portffolio Cyfiawnder Cymdeithasol, rwyf wedi rhoi cynnydd o 2% oherwydd chwyddiant i bob cyllideb er mwyn adlewyrchu'r costau cynyddol a wynebir gan y trydydd sector. Mae swyddogion yn y trydydd sector yn parhau i hyrwyddo'r Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector yn Llywodraeth Cymru.

143. Mae penderfyniadau cyllido yn Llinell Wariant yn y Gyllideb Cymorth i'r Sector Gwirfoddol yn ystyried cost gynyddol Yswiriant Gwladol drwy drosglwyddo'r cynnydd i'r gyllideb yn unol â chyngor y Cod Ymarfer.

## Cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol

144. Er bod cyllido dros gyfnodau hwy bob amser wedi bod yn opsiwn, mae'r penderfyniadau hyn wedi cael eu gwneud ar sail achos unigol ac yn ôl disgresiwn meysydd polisi unigol.

145. Ers 2022 rydym wedi dilyn polisi cyllido dros gyfnod hwy, sy'n ymateb i'r pryderon hyn, yn enwedig gan y trydydd sector, bod grantiau yn aml yn cael eu rhoi ar sail

blwyddyn. Mae Cabinet Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o'r newydd i'r polisi hwn yn 2025.

146. Mae'r holl gyllid a ddarperir i'r trydydd sector drwy'r cymorth i'r sector gwirfoddol a'r gyllideb gwirfoddoli wedi cael ei ddarparu o dan gytundebau cyllido tair blynedd. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer diwygiedig ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector ym mis Ebrill 2025 ac mae'n dadlau dros ddefnydd cynyddol o gyllid tymor hwy lle y bo hyn yn briodol.

147. Rydym yn glir bod cyllido yn y tymor hwy yn cynnig manteision sylweddol i bawb dan sylw. Mae'n rhoi sicrwydd ariannol a sicrwydd cyflogaeth, sy'n ei gwneud yn bosibl i gynllunio'n well, ac mae'n lleihau beichiau gweinyddol. Mae hefyd yn gwella'r gwasanaeth a ddarperir drwy helpu i recriwtio a chadw staff a gwirfoddolwyr profiadol.

148. Er mwyn sicrhau ein bod yn cael darlun mor gyflawn â phosibl, gan weithio gyda CGGC a Phrifysgol Nottingham Trent rydym wedi datblygu a lansio baromedr i'r trydydd sector. Bydd hwn yn cynnig cyfres o bwyntiau data a fydd yn rhoi gwybodaeth am iechyd a chynaliadwyedd y trydydd sector yng Nghymru. Bydd hyn hefyd, dros amser, yn ein galluogi i olrhain effaith penderfyniadau polisi ar gynaliadwyedd y sector.

# 11. Tlodi Tanwydd

**Bydd £0.75m o fuddsoddiad ychwanegol yng nghynllun Nyth Cartrefi Clyd, gan weithio ochr yn ochr â'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni a Chynllun Inswleiddio Prydain Fawr, yn cefnogi teuluoedd incwm isel sy'n byw mewn cartrefi aneffeithlon o ran ynni.**

149. Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer cynllun Nyth Cartrefi Clyd wedi cynyddu **2% yn 2026-27 o £37.5m i £38.25m**. Mae hyn yn adeiladu ar **y cynnydd o 7% yn y gyllideb yn 2025-2026** sy'n golygu bod y cynllun bellach yn gallu cefnogi mwy o aelwydydd. Yn ogystal â chyfyngiadau cyllidebol, ceir cyfyngiadau eraill ar nifer y cartrefi y gall Nyth Cartrefi Clyd eu helpu, gan gynnwys nifer y ceiswyr o dan y cynllun a arweinir gan alw a gallu contractwyr yng Nghymru i gyflwyno'r rhaglen i safon PAS2035 y diwydiant. Mae'r safon, ochr yn ochr â'n cyllid ar gyfer gwasanaeth sicrhau ansawdd annibynnol, yn sicrhau nad ydym yn wynebu'r un problemau o ran gwaith gwael y mae Llywodraeth y DU wedi'u hwynebu yn ei chynlluniau ECO a GBIS.

150. Mae cynllun Nyth hefyd yn rhan o gyd-destun polisi ehangach, ochr yn ochr â mentrau eraill megis ECO4, nad ydynt yn dibynnu ar gyllid y llywodraeth. O ganlyniad, rydym wedi helpu awdurdodau lleol i uwchraddio gweithgarwch ECO4 drwy sefydlu cynlluniau ECO4 LA Flex, a thrwy hynny wella'r mynediad at gyllid rhwymedigaethau cwmnïau ynni.

151. Mae newidiadau i gyllid yn Lloegr ar raglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'n grant bloc drwy fformiwla Barnett. Fodd bynnag, nid yw'r newidiadau hynny yn pennu ar beth y dylai'r grant bloc gael ei wario. Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Senedd, fydd yn penderfynu sut i ddyrannu cyllideb Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys cyllid o'r grant bloc, trethi datganoledig a benthyciadau cyfalaf. Os bydd dadl dros ddefnyddio'r cyllid canlyniadol at ddibenion tebyg, bydd Gweinidogion Cymru yn ei ddefnyddio yn unol â'u blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebu briodol.